

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

Ionawr 2020

## 1. Cefndir a dull gweithredu

Bob blwyddyn rydym yn ystyried sut mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru. Rydym yn canolbwyntio ar sut mae Gweinidogion Cymru yn blaenoriaethu adnoddau, yn asesu fforddiadwyedd gwasanaethau, yn sicrhau gwerth am arian, a pha un a ydyn nhw'n gwneud hyn mewn ffordd glir a thryloyw. Mae'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan y gweithgarwch craffu ariannol rydyn ni'n ei brif ffrydio i'n holl waith, trwy gydol y flwyddyn.

1. Mae materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn torri ar draws portffolios Llywodraeth Cymru a'r cyllidebau cysylltiedig. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ein gweithgarwch craffu ar y Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) sydd fwyaf perthnasol i blant: Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Llywodraeth Leol.
2. Y llynedd, mewn ymateb i'n pryderon ynghylch rhoi sylw annigonol i **hawliau plant a phobl ifanc fel rhan broses y gyllideb**, buom hefyd yn gweithio ar y cyd â'r Pwyllgorau Cyllid a Chydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ystyried y prosesau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu effaith ei phenderfyniadau ariannol ar rai grwpiau yn y boblogaeth. Unwaith eto, mae ein gweithgarwch craffu eleni wedi cael ei gynnal gyda hawliau plant yn flaenllaw yn ein meddyliau.



**3.** Yn ein holl adroddiadau diweddar ar gyllidebau drafft rydym wedi tynnu sylw at ba mor anodd yw dilyn yr arian o ran sut y mae'n ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc. Mae hyn wedi bod yn broblem benodol i ni mewn perthynas â **dyraniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol**. Mae'n broblem nad yw wedi gwella er gwaethaf ein hargymhellion trawsbleidiol niferus, ac mae hynny'n peri gofid mawr. Ynghyd â'r amser a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael inni yn ystod proses y gyllideb ddrafft, mae'r her barhaus hon wedi achosi inni fabwysiadu dull gwahanol o graffu ar y maes hwn eleni. Wrth graffu ar y dyraniadau drafft fel y maent yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, rydym wedi canolbwyntio ar dri o'r meysydd a nodwyd gennym fel blaenoriaethau yn ystod y Cynulliad hwn: iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, plant sy'n derbyn gofal ac iechyd meddwl amenedigol. I lywio'r gwaith hwn, gwnaethom geisio tystiolaeth gan Fyrddau Iechyd a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol,<sup>1</sup> yn ogystal â gofyn am wybodaeth fanwl gan Lywodraeth Cymru.<sup>2</sup>

**4.** Er bod craffu ar **ddyraniadau addysg** yn symlach o ran ei gysylltiad â phlant a phobl ifanc, nid yw heb ei heriau.

**5.** Yn fwyaf nodedig, mae'r brif ddarpariaeth o ran **addysg cyn-16** - cyllidebau craidd ysgolion - yn cael ei hariannu'n bennaf gan y Setliad Llywodraeth Leol heb ei neilltuo. Rhoddodd ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2019 ar gyllid ysgolion ystyriaeth fanwl i ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion a'r ffordd y mae'r rhain yn cael eu pennu a'u dyrannu. Yn yr un modd, ceisiodd ein hadroddiad ym mis Mehefin 2018 ar gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol asesu i ba raddau yr oedd y Grant Datblygu Disgyblion a rhaglen Her Ysgolion Cymru yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn effeithiol. Rydym wedi ceisio adeiladu ar y gwaith pwysig hwnnw yn ystod y cylch cyllideb hwn.

**6.** Gyda golwg ar **addysg ôl-16**, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol i graffu ar Lywodraeth Cymru. Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaethom waith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn ar ddyraniadau blwyddyn academiaidd newydd ar gyfer Addysg Uwch ym mis Gorffennaf 2019 i sicrhau ein bod yn dilyn cynnydd mewn perthynas â gweithredu argymhellion Diamond a Reid yn agos. Fel rhan o hyn, gwnaethom hefyd graffu ar oruchwylio trefniadau llywodraethu yn y sector, gan ystyried

---

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd papurau gan Fyrddau Iechyd a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i lywio [cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr 2020](#).

<sup>2</sup> Cyhoeddwyd [gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#) i lywio cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr 2020. Mae [Cofnod y Trafodion o 8 Ionawr 2020](#) ar gael hefyd.

materion diweddar sydd wedi codi mewn rhai prifysgolion yng Nghymru.<sup>3</sup> Mewn perthynas ag argymhellion yr Athro Hazelkorn ar gyfer diwygio'r sector addysg ôl-16, nod yr adroddiad ar ein gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019, oedd sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o weithredu'r Ddeddf honno – yn rhai ariannol ac fel arall - yn cael eu defnyddio pan gyflwynir y bil addysg drydyddol gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach eleni.

**7.** Rydym wedi ceisio tynnu ar ein gweithgarwch craffu ehangach ar y portffolio addysg, ynghyd â'r wybodaeth fanwl a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cylch cyllideb hwn,<sup>4</sup> i lywio ein gwaith craffu ar ddyraniadau cysylltiedig ag addysg ar gyfer 2020-21.

**8.** O ystyried y graddfeydd amser ar gyfer craffu gan y Cynulliad ar y Gyllideb Ddrafft, nid ydym wedi gallu rhoi ystyriaeth fel rhan o'n hadroddiad i unrhyw wybodaeth a gafwyd ar ôl 23 Ionawr 2020.

#### Craffu gan bwyllgorau eraill

---

**9.** O ystyried natur drawsbynciol cylch gwaith ein pwyllgor, mae'n anochel bod ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn gorgyffwrdd â meysydd sydd o ddiddordeb i bwyllgorau eraill.

**10.** Ar gyfer **iechyd a gwasanaethau cymdeithasol**, er bod materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn rhan o'n portffolio, rydym yn cydnabod y bydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon hefyd yn cymryd diddordeb o ystyried natur pob oed llawer o linellau cyllideb allweddol. O ystyried rôl allweddol **Llywodraeth leol** mewn nifer o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc, mae materion sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd o ddiddordeb cyffredin.

**11.** Gyda golwg ar **addysg**, tra bo rhai materion sy'n ymwneud â sgiliau, ymchwil a datblygu o fewn cylch gwaith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau,<sup>5</sup> mae rhai dyraniadau sy'n ymwneud â'r rhain yn perthyn i linellau cyllideb y Gweinidog

---

<sup>3</sup> Gweler y sylw canlynol yn y wasg: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48609280> a <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-49129345>.

<sup>4</sup> Cyhoeddwyd **gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** i lywio cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr 2020. Mae **Cofnod y Trafodion o 8 Ionawr 2020** ar gael hefyd.

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Busnes, **Pwyllgorau yn y Pumed Cynulliad**, Mehefin 2016.

---

Addysg.<sup>6</sup> Er mwyn lleihau beichiau ar amser gweinidogion a phwyllgorau, cytunwyd felly gyda Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y byddem yn casglu dystiolaeth sy'n berthnasol i'w gylch gwaith fel rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft eleni, yn enwedig mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi.<sup>7</sup> Cyfeiriwyd y dystiolaeth hon at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn dilyn ein sesiwn a bydd ei aelodau'n ei hystyried ac yn adrodd arni.<sup>8</sup>

---

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21, Rhagfyr 2019.

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gohebiaeth oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Addysg yn gofyn am wybodaeth sy'n ymwneud â Chyllideb Ddrafft 2020-21, 31 Gorffennaf 2019.

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gohebiaeth oddi wrth y Cadeirydd i Gadeirydd y Pwyllgor EIS, 15 Ionawr 2020.

---

## 2. Dull hawliau plant

**12.** Trwy gydol y Cynulliad hwn rydym wedi pwysleisio y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth glir am sut y mae wedi asesu effaith ei Chyllidebau Drafft ar blant a phobl ifanc, yn unol â'i dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ('y Mesur').

**13.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

“Yr un fath ag yn 2019-20, mae ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol yn cynnwys ystyriaeth glir o effaith penderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant.”<sup>9</sup>

**14.** Mae'n ychwanegu y bydd Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yn cael eu cynnal fel rhan o waith parhaus i ddatblygu ac adolygu polisi a'u defnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebol a'r asesiad o'u heffaith ehangach.<sup>10</sup> Eir ymlaen i ddweud:

“Mae ein hadnodd asesiad effaith integredig newydd yn dal i fynnu bod hawliau plant yn cael eu hystyried a bod asesiad llawn o'r effaith ar hawliau plant yn cael ei gwblhau, lle bo hynny'n ofynnol. Mae'r broses CRIA yn rhoi lle blaenllaw i hawliau plant wrth i ni ddatblygu deddfwriaeth, rhaglenni a pholisïau newydd.”<sup>11</sup>

**15.** Yn ystod ein sesiwn ar y gyllideb ar 8 Ionawr 2020 gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi ble yn union yn yr Aseiad Effaith Integredig Strategol y rhoddir ystyriaeth glir i effaith penderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ymateb yn ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd ar ôl ein sesiwn yn rhestru cyfeiriadau at blant yn yr Aseiad Effaith Integredig Strategol;<sup>12</sup> fodd

---

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t2.

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, tt2-3.

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019/2019, t3.

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn y sesiwn ar y Gyllideb Ddrafft](#), 23 Ionawr 2020.

---

bynag, nid yw'r rhain yn cwrdd â'n disgwyliad o ran yr esboniad manwl y dylid ei roi o'r ystyriaeth a roddwyd i effaith penderfyniadau cyllidebol ar blant.

**16.** Nid yw Cynllun Gwella'r Gyllideb Llywodraeth Cymru,<sup>13</sup> sy'n amlinellu ei "gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau tymor byr a thymor canolig dros y 5 mlynedd nesaf", yn cyfeirio at ofynion y Mesur, at blant a phobl ifanc, nac at Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cyfeirir at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## EIN BARN NI

---

**17.** Mae'r ffordd y mae llywodraethau'n dyrannu cyllid yn un o'r arfau mwyaf pwerus sydd ganddyn nhw. Mae rhai o'r penderfyniadau mwyaf arwyddocaol a wnânt wedi'u cynnwys yn eu cyllidebau blynyddol.

**18.** Rydym wedi cwestiynu'n gyson a yw gofynion y Mesur yn cael eu cyflawni mewn perthynas â gwariant Llywodraeth Cymru ar draws ei phortffolios. Nid yw Cyllideb Ddrafft 2020-21 a'r wybodaeth sy'n cyd-fynd â hi yn gwneud dim i dawelu ein pryderon.

**19.** Rydym wedi argymhell o'r blaen y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei safbwynt mewn perthynas â chyllidebu plant ac asesu effaith ei phenderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant. Buom hefyd yn gweithio ar y cyd y llynedd gyda'r Pwyllgorau Cyllid a Chydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i geisio sicrhau bod prosesau cadarn a thryloyw ar waith i asesu effaith ei holl benderfyniadau ariannol.

**20.** Rydym yn siomedig iawn, er ei bod yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nad yw Cynllun Gwella'r Gyllideb Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y Mesur, hawliau plant, na Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r ffaith mai felly y mae hi ar ôl cyhoeddi'r argymhellion yn ein hadroddiad ar y cyd y llynedd yn arbennig o rhwystredig ac anfoddhaol.

**21.** Er ein bod yn cydnabod yr esboniadau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam ei bod wedi newid i gyhoeddi asesiadau effaith integredig, nid ydym yn argyhoeddedig bod y rhain, fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd, yn dangos cydymffuriad â'r Mesur. Er mai mater cyflwyniadol ydyw o bosibl, nid ydynt yn rhoi hyder inni bod Cyllidebau Drafft yn cael eu datblygu mewn ffordd sydd rhoi ystyriaeth benodol i "sylw dyledus".

---

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynllun Gwella'r Gyllideb](#), 2019.

**22.** Ar y sail hon rydym yn argymhell, hyd nes y gallwn fod yn dawel ein meddwl bod dyletswydd Llywodraeth Cymru o roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi cael ystyriaeth amlwg fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, y dylai ddychwelyd at gyhoeddi CRIA unigol ar ei Chyllideb Ddrafft i ddangos cydymffurfiad â'r Mesur.

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru yn dychwelyd at gyhoeddi CRIA unigol ar ei Chyllideb Ddrafft i ddangos cydymffurfiad â'r Mesur, nes y gallwn fod yn dawel ein meddwl bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft yn dangos bod y ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP wedi'i hystyried yn glir.

### 3. Iechyd, gofal cymdeithasol a phlant

Y cyfanswm cyffredinol yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020-21 yw £ 8.9 biliwn.<sup>14</sup> Mae hyn yn cynrychioli tua hanner Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21. Yn yr un modd â Chyllidebau Drafft blaenorol, mae craffu ar y dyraniadau hyn o safbwynt plant a phobl ifanc yn her sylweddol o ystyried y diffyg manylder parhaus amdanynt, yn enwedig mewn perthynas â chyllid ar gyfer darparu gwasanaethau craidd y GIG.

Eleni, er mwyn ceisio goresgyn y broblem, rydym wedi mabwysiadu dull gwahanol ar gyfer ein gwaith craffu, gan ganolbwyntio ar dri maes yr ydym wedi'u blaenoriaethu yn ystod y Cynulliad hwn: iechyd meddwl amenedigol, iechyd emosiynol a meddyliol, a phlant sy'n derbyn gofal. Daw mwyafrif y gwariant cyhoeddus ar blant sy'n derbyn gofal o'r Grant Cynnal Refeniw yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol; fodd bynnag, y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ganlyniadau i'r grŵp hwn o blant.

#### Sefyllfa gymharol iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phlant

**23.** Yn ei dogfen naratif ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, dywed Llywodraeth Cymru:

“Rydym yn parhau i flaenoriaethu buddsoddi yn GIG Cymru ac rydym yn buddsoddi £385 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol yn y system iechyd a gofal cymdeithasol a £40 miliwn o arian cyfalaf.”<sup>15</sup>

**24.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ei hymrwymiad i “ddiogelu iechyd a gofal cymdeithasol yn eu crynswth”. Mae'n dadlau bod hyn yn cael ei ddangos

---

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, Tabl 7.1.

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t3.



gan ffigyrau Trysorlys EM sy'n dangos bod Cymru wedi gwario mwy ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y pen nag unrhyw ran arall o'r DU yn 2018-19.<sup>16</sup> Ni ddarperir ffigwr ar wahân ar gyfer gwariant ar blant a phobl ifanc.

**25.** Mae'r cyfanswm cyffredinol ar gyfer y **MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** (£8.9 biliwn) yn cynrychioli cynnydd o 2.9% mewn termau real o gyllideb atodol 2019-20.<sup>17</sup> Mae'n cynnwys y dyraniad refeniw craidd ar gyfer GIG Cymru (sy'n cefnogi pob oedran), yn ogystal â chyllid ar gyfer iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant.

**26.** Mewn perthynas â phlant yn benodol, mae ychwanegiadau i'r BEL Cefnogi Plant yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys:

- £20 miliwn i ateb y galw am y cynnig gofal plant;
- £2.3 miliwn i barhau i gefnogi gwasanaethau mabwysiadu; a
- £0.6 miliwn ar gyfer cyfathrebu sy'n ymwneud â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).<sup>18</sup>

**27.** Ni wneir unrhyw newidiadau yn 2020-21 i gyllid ar gyfer hawliau plant na Chomisynydd Plant Cymru.<sup>19</sup>

**28.** O ran plant sy'n derbyn gofal, mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yn statudol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n ychwanegu bod mwyafrif helaeth y cyllid hwnnw yn y Grant Cynnal Refeniw (yn y **MEG Tai a Llywodraeth Leol**), sydd heb ei neilltuo (i alluogi awdurdodau lleol i arfer ymreolaeth a chyfrifoldeb yn unol â'u statws fel cyrff sy'n atebol yn ddemocrataidd).<sup>20</sup> **Darperir cyllid penodol y tu hwnt i'r Grant Cynnal Refeniw hefyd** i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys - er enghraifft - trwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi (rhan o'r Grant Plant a Chymunedau o fewn y MEG Tai a Llywodraeth Leol), a'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (rhan o'r MEG Addysg).

---

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, tt 27-28.

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t60.

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t2.

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t2.

<sup>20</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t28.

---

## Iechyd meddwl

- 29.** Mae dau o'r meysydd ffocws ar gyfer ein gwaith craffu ar y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eleni - iechyd meddwl amenedigol ac iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc - yn ymwneud ag iechyd meddwl, ac yn adeiladu ar yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennym yn y meysydd hyn yn 2017 a 2018 yn y drefn honno.<sup>21</sup>
- 30.** Cynyddir cyllid ar gyfer iechyd meddwl yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21, gydag £13 miliwn arall yn cael ei fuddsoddi mewn iechyd meddwl i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymru Iachach*. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod hyn yn dod â chyfanswm y **dyraniad wedi'i glustnodi** i fwy na £700 miliwn yn 2020-21.<sup>22</sup>
- 31.** Hefyd, darperir rhywfaint o gyllid iechyd meddwl trwy'r **Gronfa Gwella Iechyd Meddwl** ac, er enghraifft, trwy **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** i gyflawni'r dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a lles emosiynol a meddyliol.
- 32.** Ynghyd â'r ffaith bod Byrddau Iechyd yn gyfrifol am bennu eu cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl (yn unol â'u hasesiadau eu hunain o anghenion y boblogaeth a'r gofynion o ran clustnodi ar gyfer iechyd meddwl), mae'r darlun cyllid ar gyfer iechyd meddwl - gan gynnwys trefniadau ar gyfer ei fonitro - yn gymhleth.
- 33.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei fonitro trwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2019-22. Ar adeg ein hystyriaeth i Gyllideb Ddrafft 2020-21, nid oedd y cynllun wedi'i gyhoeddi. Pan ofynnwyd iddo pryd y bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi, atebodd y Gweinidog:

“After I've signed it off and agreed it. So, it's in my in-tray, it's imminent. I've got a range of things to look at and I'll make a decision [...] we're not talking about months and months in the future; you can expect that to be – I would expect that to be within the first half of this term.”<sup>23</sup>

---

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Adroddiad Iechyd Meddwl Amenedigol**, Hydref 2017 a'r **Adroddiad Cadernid Meddwl**, Ebrill 2018.

<sup>22</sup> **Llywodraeth Cymru, naratif Cyllideb Ddrafft 2017-18, tudalen 24**

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Cofnod y Trafodion [para 388]**, 8 Ionawr 2020.

---

## Iechyd meddwl amenedigol

---

- 34.** Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar iechyd meddwl amenedigol ym mis Hydref 2017.<sup>24</sup> Rydym wedi bod yn monitro cynnydd ers hynny a byddwn yn ymgymryd â cham nesaf ein gwaith dilynol ym mis Chwefror 2020.
- 35.** Rhwng 2015-16 a 2018-2019 dyrannodd Llywodraeth Cymru £1.4- £ 1.5 miliwn i fyrddau iechyd yn flynyddol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.<sup>25</sup> Fodd bynnag, yn ystod rownd Cyllideb Ddrafft 2019-20, cydnabu Llywodraeth Cymru fod angen mwy o adnoddau i wella gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.<sup>26</sup>
- 36.** Ni ddyrennir unrhyw gyllid ychwanegol yn benodol ar gyfer iechyd meddwl amenedigol yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod gan Fyrddau Iechyd “hyblygrwydd i benderfynu ym mha feysydd roedd eu cyllid wedi'i ddyrannu yn erbyn meysydd blaenoriaeth a benderfynwyd ymlaen llaw” drwy'r Gronfa Gwella Iechyd Meddwl (y Gronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl gynt).<sup>27</sup> Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hyn wedi achosi i rai byrddau iechyd, ond nid pob un, ddyrannu cyllid ychwanegol i wasanaethau cymunedol iechyd meddwl amenedigol.<sup>28</sup>
- 37.** Darperir tabl sy'n cynnwys “dyraniadau cyllido cronus a fydd yn rhan o'r cyllid a glustnodir ar gyfer Iechyd Meddwl”, sy'n gyfanswm o £2.36 miliwn ar gyfer 2020-21, fel rhan o wybodaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru am iechyd meddwl amenedigol.<sup>29</sup> Nid yw'n eglur sut mae'r dyraniadau hyn wedi'u cyfrifo a pha statws sydd ganddynt.
- 38.** Pan ofynnwyd iddo am drefniadau ar gyfer **monitro gwariant**, eglurodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'n edrych ar “allbynnau

---

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Adroddiad Iechyd Meddwl Amenedigol](#), Hydref 2017.

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t27.

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2019-20](#), Tachwedd 2018.

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t27.

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t27.

<sup>29</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, tt27-28.

---

a chanlyniadau”<sup>30</sup> yn hytrach na buddsoddi wrth ddwyn Byrddau Iechyd i gyfrif, a bod:

“Bydd effaith y cyllid hwn yn cael ei monitro trwy’r trefniadau y cytunir arnynt ar gyfer cynllun cyflawni 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Rydym wedi nodi’n glir trwy ddyfarnu’r cyllid gwella gwasanaethau y bydd hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth â Safonau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan erbyn mis Mawrth 2020 a Safonau Cymunedol Amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion erbyn mis Mawrth 2021. Mae’r disgwyliad hwn yn berthnasol hefyd i fyrdau iechyd na wnaethant ddewis dyrannu eu harian ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn, ac maent wedi cael gwybod am hyn.”<sup>31</sup>

### **Darparu Uned Mamau a Babanod Arbenigol**

**39.** Ers cyhoeddi ein hadroddiad ar iechyd meddwl amenedigol ym mis Hydref 2017 rydym wedi galw’n gyson am gwblhau gwaith ar ddarparu uned mamau a babanod arbenigol (MBU). Ddwy flynedd a chwarter yn ddiweddarach, nid oes uned mamau a babanod ar waith.

**40.** Roedd gwybodaeth ysgrifenedig a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019 yn dangos nad yw ffigwr penodol a ddyrannwyd ar gyfer darparu uned mamau a babanod arbenigol ar gael eto gan fod y gwaith o gwblhau'r costau disgwylid yn dal i fynd rhagddo. Fodd bynnag, dywedodd:

“[...] mae hwn yn faes blaenoriaeth ac rydym wedi ymrwymo’n ffurfiol i sefydlu uned a darparu’r cyllid cyfalaf sydd ei angen i wneud hynny.”<sup>32</sup>

**41.** Pan ofynnwyd iddo yn ein sesiwn ar 8 Ionawr 2020 a oedd diweddariad ar y cyllid y mae ei angen i sefydlu darpariaeth uned arbenigol yng Nghymru ar gael, ymatebodd y Gweinidog:

“No’ is the straight answer [...]

[...] the work isn’t fully complete and I need to have the business case for that to be able to do that. But we do expect there to be an interim

---

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 202\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t28.

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t27.

---

service that is up and running whilst the business case on a permanent mother and baby unit is provided."<sup>33</sup>

**42.** Pan ofynnwyd iddo a oes arian yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21 ar gyfer y gwasanaeth interim, dywedodd y Gweinidog:

“You see, the money for the interim solution – we’ve given health boards a fair chunk of additional money and I haven’t held back a sum of money in Welsh Government reserves to simply go into that.”<sup>34</sup>

## EIN BARN NI

---

**43.** Rydym yn bryderus iawn, 27 mis ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad ar iechyd meddwl amenedigol, nad oes ffigwr wedi'i nodi o hyd ar gyfer darpariaeth uned arbenigol barhaol yng Nghymru, heb sôn am fod ag uned arbenigol ar waith.

**44.** At hynny, er ein bod yn cydnabod bod gwasanaeth interim yn cael ei ddatblygu, rydym yn deall nad yw hwn hyd yn oed yn weithredol eto. Nid yw'n glir ychwaith faint o arian sydd ar gael i gyllidebau'r Byrddau Iechyd – a faint y mae ei angen - i'w ddarparu.

**45.** Rydym wedi galw dro ar ôl tro am gynyddu cyflymder y cynnydd yn y maes hwn, ac rydym yn parhau i fod yn aneglur pam ei bod wedi cymryd cyhyd i fynd i'r afael â'r angen brys hwn. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol yn 2017, credwn y gellir cyfleu dadl buddsoddi-i-arbed gref dros gymorth iechyd meddwl amenedigol arbenigol, nid dim ond mewn perthynas â thriniaeth a gofal ar gyfer mamau, ond o ran lleihau effaith afiechyd meddwl amenedigol ar blant a theuluoedd. Mae'r rhain yn faterion y byddwn yn rhoi sylw dilynol trylwyr iddynt y mis nesaf pan fyddwn yn parhau â'n gwaith craffu parhaus ar y maes polisi hwn.

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r dyraniadau cyllid cronus ar gyfer iechyd meddwl amenedigol ar dudalen 28 [papur cyllideb ddrafft](#) y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u cyfrifo a beth yw eu statws.

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei bwriadau mewn perthynas â darparu uned mamau a babanod arbenigol yng Nghymru erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20.

---

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 209\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 214\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

## Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

---

**46.** Mae cymhlethdod y darlun o ran cyllid ar gyfer iechyd meddwl y cyfeirir ato uchod yn arbennig o berthnasol mewn perthynas â dyraniadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd craffu ar y Gyllideb Ddrafft fel y mae'n ymwneud yn benodol ag iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.

### Dyraniadau perthnasol

**47.** Yn ogystal â'r cyllid a ddyrennir ar gyfer iechyd meddwl pob oed, mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at ddyraniadau sy'n berthnasol i iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc mewn mannau eraill, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- cyllid i gefnogi'r **dull ysgol gyfan**;
- cyllid gwella gwasanaethau, i Fyrddau Iechyd roi cymorth ychwanegol ar gyfer **CAMHS ac ymyrryd yn gynnar**;
- cyllid i **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** roi cymorth ymyrryd yn gynnar a chymorth ataliol lefel isel yn y gymuned;
- y Gronfa Gofal Integredig, i gefnogi gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer **plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal**; a hefyd
- y Grant Cymorth Ieuenctid, y darperir rhan ohono i fynd i'r afael â materion iechyd a lles meddyliol / emosiynol trwy **ddulliau gwaith ieuenctid**.<sup>35</sup>

**48.** Mewn ymateb i gwestiynau am ddyraniadau penodol ar gyfer meysydd sy'n peri pryder penodol inni, ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel a ganlyn:

- mewn perthynas â **gostyngiadau cynaliadwy mewn amseroedd aros** ar gyfer CAMHS gofal sylfaenol ac eilaidd CAMHS dywedodd ei fod:

“[...] not particularly sympathetic to any argument that says that it's impossible to improve further the responsibilities they already have and priorities they already recognise without more money

---

<sup>35</sup> Gweler **Diweddariad Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Cadernid Meddwl**, 2 Mai 2019 a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21**, Rhagfyr 2019, t22-23.



going in over and above the significant uplift that we've announced to health board budgets.”<sup>36</sup>

- mewn perthynas â **gwasanaethau cleifion mewnol**, nad oedd yn gwybod faint o arian ychwanegol fyddai ar gael gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i fyrddau iechyd gyda'r hyn y maent yn rhagweld y bydd yn gyfystyr ag ehangu gwasanaethau:

“I can't really allocate a sum of money for a service that I don't know about, because the work hasn't been completed yet in terms of the Welsh Health Specialist Services Committee, in terms of the work that is under way to understand exactly what that provision would require. So, once that work is completed, if health boards themselves, given the investment we've made, are not able to do that, I'd then be in a position to come back and say when I would expect that to be done, and if there is a sum of money that we would make available or not.”<sup>37</sup>

- mewn perthynas â **gofal argyfwng a'r tu allan i oriau**, bod recriwtio a chadw yn peri problem ond nad oedd hyn yn unigryw i'r maes hwn o fewn gofal iechyd, a bod angen ystyried cymorth i wasanaethau cyhoeddus ehangach hefyd.<sup>38</sup>

## Tracio buddsoddiad ac effaith

**49.** Yn unol ag ysbryd argymhelliad 27 yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl* (y dylai fod yn ofynnol i fyrddau iechyd roi gwybod am wariant ar wasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol i blant a phobl ifanc mewn ffordd unffurf i gynyddu atebolrwydd a thryloywder), gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion y canlynol inni:

- **lefel gyffredinol y buddsoddiad** yng ngwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21; a
- sut y mae Llywodraeth Cymru yn **tracio'r gwariant hwnnw** i sicrhau bod y buddsoddiad yn dwyn gwell canlyniadau.

**50.** Atebodd y Gweinidog trwy:

---

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 231\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 260\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 233 a 235\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

- gyfeirio at fuddsoddiadau yn y dull ysgol gyfan a'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion;
- nodi bod plant a phobl ifanc yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer y cyllid a glustnodir ar gyfer iechyd meddwl (ond mai mater i fyrddau iechyd oedd penderfynu sut a ble mae eu cyllid yn cael ei ddyrannu yn erbyn y meysydd blaenoriaeth hyn a bennwyd ymlaen llaw); a
- phwysleisio "it isn't about saying there's a specific sum of money that I have set aside for children's mental health and well-being, but there is an investment choice that's being made into services and there's a clear policy priority that's been there".<sup>39</sup>

**51.** Wrth ymateb i gwestiynau dro ar ôl tro ynglŷn â sut mae gwariant yn cael ei olrhain a'i effaith yn cael ei mesur, cyfeiriodd y Gweinidog at gyfarfodydd timau gweithredol ar y cyd ac ymgysylltiad rheolaidd rhwng Gweinidogion a chadeiryddion ac is-gadeiryddion byrddau iechyd.<sup>40</sup> Ychwanegodd:

"[...] there'll be much more scrutiny about [whether improvement is occurring] when we get to publish more data and information about achievement."<sup>41</sup>

**52.** Pan holwyd am y **data** sydd ar gael – yn benodol lefel yr anghysondeb yn y wybodaeth a gynhyrchir gan fyrddau iechyd a sut mae hynny'n effeithio ar ei hyder bod polisi'n cael ei weithredu – fe wnaeth y Gweinidog:

- gytuno ei bod yn bwysig tracio'r hyn sy'n digwydd o ran darparu iechyd meddwl;<sup>42</sup>
- ceisio ein sicrhau, "you'll see more of that in the year when we get to publish, finally, over this next year, some of the data around achievement against the Measure";<sup>43</sup>

---

<sup>39</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 18-220\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 224\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 224\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 222\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>43</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 222\]](#), 8 Ionawr 2020.



- nodi nad ei safbwynt cychwynnol ef yw y dylai fod dull unffurf ar draws byrddau iechyd cyn belled â'u bod yn dryloyw wrth egluro eu gwahaniaethau;<sup>44</sup> a
- chydabod bod diffyg tryloywder ar hyn o bryd.<sup>45</sup>

**53.** Fel a nodir ym mharagraff 33, tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at rôl **Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2019-20** o ran tracio buddsoddiad ac effaith;<sup>46</sup> fodd bynnag, nid oeddem yn gallu archwilio hynny'n fanwl gan nad oedd y cynllun wedi'i gyhoeddi ar adeg ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21. Ar y cyfan, ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd i ddangos y cyswllt rhwng yr arian a fuddsoddiwyd gan Lywodraeth Cymru a'r canlyniadau a gyflawnwyd o ganlyniad iddo.

## EIN BARN NI

---

**54.** Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r cyllid sylweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu ei fod ar gael i gefnogi gwasanaethau ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn cydnabod bod iechyd wedi cael mwy o godiad nag unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21 ac rydym yn cytuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'n anodd iawn - yng ngoleuni pwysau aciwt mewn manau eraill - mynd ag adnoddau ychwanegol o rannau eraill o Lywodraeth Cymru neu gronfeydd wrth gefn i gynyddu'r MEG hwn ymhellach.

**55.** Serch hynny, er gwaethaf y swm sylweddol hwn o gyllid, mae rhanddeiliaid wedi parhau i fynegi pryderon dros y flwyddyn ddiwethaf ynghylch darparu gwasanaethau. Gan hynny, gwnaethom geisio defnyddio ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft i archwilio manylion buddsoddiadau a wnaed mewn gwasanaethau a chymorth iechyd emosiynol a meddyliol ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r trefniadau monitro sydd ar waith i sicrhau eu bod yn cyflawni yn erbyn eu hamcanion datganedig. Ysgrifennom at fyrddau iechyd i gael gwybodaeth i ategu'r gwaith craffu hwnnw, yn ogystal ag archwilio'r mater gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y gobaith y byddem yn cael tystiolaeth gref o drefniadau atebolrwydd trylwyr a thryloyw. Ni wnaeth yr wybodaeth a gawsom dawelu ein meddwl.

---

<sup>44</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 253-254\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>45</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 254\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 388\]](#), 8 Ionawr 2020.

**56.** Ar ddiwedd y broses hon nid ydym yn gliriach ein meddwl o gwbl faint yn union sy'n cael ei wario ar y gwahanol feysydd gwasanaeth i gefnogi iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, sut mae hyn yn cael ei fonitro, a sut mae ei effaith yn cael ei mesur. Gan hynny, nid oes gennym yr hyder bod gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc yn cael eu cyflawni ar y cyflymder yr ydym yn ei ddisgwyl i'n plant a'n pobl ifanc ac ar gyfradd sy'n gymesur â'r lefelau o arian sy'n cael eu buddsoddi. Nid ydym yn amau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r maes hwn, ond mae proses dryloyw yn sail i'r gallu i flaenoriaethu, mesur fforddiadwyedd ac asesu gwerth am arian. Yn ein barn ni, ceir diffyg difrifol yn hyn o beth.

**57.** Rydym yn cydnabod y gallai Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni fod o gymorth yn hyn o beth, unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi. Serch hynny, yn y cyfamser, mae symiau sylweddol o arian eisoes yn cael eu buddsoddi. Er ein bod yn croesawu pwyslais y Gweinidog ar bwysigrwydd canlyniadau, ychydig o dystiolaeth gadarn neu benodol a gyflwynwyd inni i ddangos sut mae'r rhain yn cael eu monitro a'u mesur, a sut maent yn cyflawni gwelliannau cynaliadwy. At hynny, heb ryw lawer o fanylion am yr hyn sy'n cael ei wario ar wasanaethau penodol, a chan mai ychydig iawn o ddata cyhoeddedig sydd ar gael gan fyrddau iechyd, nid yw'n eglur sut mae gwelliannau'n cael eu llywio ac atebolrwydd yn cael ei gynnal.

**58.** Roedd Argymhelliad 27 yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl* yn galw am ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio adroddiadau am eu gwariant ar wasanaethau lles emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc mewn ffordd unffurf er mwyn eu gwneud yn fwy atebol a thryloyw. Gwnaethom hefyd godi pryderon ynghylch argaeledd a thryloywder data. A hithau bron yn ddwy flynedd ers cyhoeddi *Cadernid Meddwl*, credwn mai ychydig o gynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran tryloywder ac atebolrwydd y cyllid hwn. Er ein bod yn cydnabod y camau sy'n cael eu cymryd i ddarparu data cyhoeddedig, rydym yn dal i bryderu am gyflymder y datblygiadau hyn ac yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod y gwaith i gyhoeddi'r data hwn yn dal i fod ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau o fewn yr amserlenni a bennwyd.

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried yn sylfaenol ei safbwynt mewn perthynas â threfniadau monitro ac atebolrwydd ar gyfer ariannu gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Dylai hyn gael ei ategu gan adolygiad o wariant ar y gwasanaethau hyn (ar draws y system gyfan) er mwyn gwella eglurder, tryloywder a'r gallu i fesur effaith yn effeithiol.

**Argymhelliad 5.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu amlinelliad o'r amserlen(ni) ar gyfer cyhoeddi'r set ddata iechyd meddwl ac yn cadarnhau bod y gwaith hwn ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau yn unol â'r amserlen.

### **Dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol**

**59.** Mae Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn cynnwys £3 miliwn o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y dull ysgol gyfan, sy'n codi o £2.5 miliwn. Ategir hyn hefyd gan £2 filiwn a ddyrennir i BEL Dull Ysgol Gyfan newydd o Ymdrin â Lles yn y MEG Addysg.<sup>47</sup> Er nad yw o fewn y dull ysgol gyfan yn benodol, dyrennir £2 filiwn yr un i addysg bellach ac addysg uwch i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr. Dywedodd y Gweinidog Addysg fod hyn yn dangos:

“[...] it's not just a whole-school approach, it's a whole-systems approach.”<sup>48</sup>

**60.** Pan ofynnwyd iddo ddarparu mwy o fanylion am y cyllid sydd ar gael ar gyfer y dull ysgol gyfan, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg:

- gan mai cyllideb blwyddyn yn unig yw hon, ni ellid rhoi ymrwymiad y tu hwnt i 2020-21 ond dywedodd, “the focus on mental health and well-being in education remains an important one for me”;<sup>49</sup>
- y bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r cyllid hwn yn cael eu gwneud ar y cyd, ac y byddant yn tynnu ar gyngor y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan, “[...] demonstrating the cross-cutting nature of this work and a commitment across Government to work together to be able to create that fund”.<sup>50</sup>

**61.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi y bydd yr arian ar gyfer y dull ysgol gyfan “yn cefnogi ymestyn gwasanaeth cwnsela ysgolion i flwyddyn ysgol ychwanegol (blwyddyn 5) ac yn ymestyn y cynlluniau peilot presennol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd

---

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t5.

<sup>48</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 101\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>49</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 97\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>50</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 98\]](#), 8 Ionawr 2020.

Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer 2020-21 i gyd" gan ychwanegu bod gwasanaethau o'r fath yn gweithredu fel ymyrraeth ataliol, neu gynnar.<sup>51</sup>

**62.** Fodd bynnag, yn ei thystiolaeth lafar, rhybuddiodd y Gweinidog Addysg rhag tybio bod cwnsela mewn ysgolion yn briodol ar gyfer plant oed ysgol gynradd:

"[...] when you think about what counselling entails, whether counselling is appropriate for a younger child, we have to question—traditional counselling. Because, if you go to a traditional counselling session, it assumes that you are able to reflect internally and be able to change circumstances around you. Well, that's really difficult to do if you're six years old [...] So, maybe traditional one-to-one counselling isn't necessarily appropriate, but support within the primary school sector is something that I anticipate that money will be used for."<sup>52</sup>

**63.** Pan ofynnwyd iddo am gyflwyno cwnsela mewn ysgolion i blant oed ysgol gynradd yn sesiwn graffu'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y gyllideb ddrafft ar 15 Ionawr 2020, ni allai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol dynnu sylw at sylfaen dystiolaeth sy'n bodoli eisoes.<sup>53</sup>

## EIN BARN NI

---

**64.** Rydym yn croesawu'n gynnes y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer datblygu'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol ymhellach, ac yn cymeradwyo Llywodraeth Cymru am ei gweithredu traws-weinidogol yn y maes hwn. Credwn fod y dull ysgol gyfan yn hanfodol i gyflawni'r dull system gyfan y gwnaethom alw amdano yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl* yn 2018.

**65.** Nodwn rybudd y Gweinidog Addysg ynghylch priodoldeb y dull cwnsela mewn ysgolion traddodiadol ar gyfer plant iau. Mae'n hanfodol bod mentrau sy'n cael eu cyflwyno mewn ysgolion yn seiliedig ar dystiolaeth dda ac arfer gorau. Gan hynny, byddem yn ceisio sicrwydd bod unrhyw benderfyniad i ariannu'r broses o gyflwyno cwnsela mewn ysgolion i'r sector cynradd wedi'i seilio ar dystiolaeth.

---

<sup>51</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t5.

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 100\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [Cofnod y Trafodion \[para 286\]](#), 15 Ionawr 2018

**Argymhelliad 6.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd, os nad oes tystiolaeth ddigonol ar gyfer cyflwyno dull cwnsela mewn ysgolion traddodiadol i ysgolion cynradd

- y bydd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio tuag at ymyriadau y profwyd eu bod yn effeithiol mewn ysgolion cynradd; ac
- y bydd cyngor arbenigol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant yn cael ei geisio er mwyn goleuo penderfyniadau ynghylch defnyddio'r arian hwn

## Plant sy'n Derbyngofal

**66.** Mae cymorth i blant sy'n derbyn gofal yn thema sydd wedi codi mewn nifer o'n hymholiadau yn ystod y Pumed Cynulliad, gan gynnwys ein hadroddiadau *Cadernid Meddwl a Cyrraedd y Nod?*

**67.** Fe benderfynon ni fwrw golwg fanylach ar y maes hwn fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21 am nifer o resymau, yn anad dim:

- am mai plant sy'n derbyn gofal yw un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas (gyda mynychder materion iechyd meddwl yn llawer uwch ymhlith y grŵp hwn na grwpiau eraill a'u bod, wrth adael y system ofal, bum gwaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion o geisio cyflawni hunanladdiad);<sup>54</sup>
- bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi codi 19.2% yn y pum mlynedd ddiwethaf;<sup>55</sup>
- bod nifer y plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, o 49 yn Sir Gaerfyrddin i 216 yn Nhorfaen;<sup>56</sup>
- bod gwariant refeniw y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 44.3% ers 2011-12;<sup>57</sup> a

---

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cadernid Meddwl](#), Ebrill 2018, t113.

<sup>55</sup> O 5,743 o blant sy'n derbyn gofal yn 2013-14 i 6,846 erbyn mis Mawrth 2019 - gweler Llywodraeth Cymru, [Ystadegau Arbrolfol: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2018-19, 30 Hydref 2019](#).

<sup>56</sup> StatsCymru, [Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#)

<sup>57</sup> StatsCymru, [Gwariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid \(£ mil\)](#)

- bod gwariant fesul plentyn sy'n derbyn gofal yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol (e.e. gwariodd Casnewydd £58,772 fesul plentyn sy'n derbyn gofal yn 2018-19 o'i gymharu â £31,431 fesul plentyn sy'n derbyn gofal yn Torfaen, gyda chyfartaledd Cymru yn £45,373).<sup>58</sup>

## Nifer y plant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau ymyl gofal

---

**68.** Cynigiodd maniffesto Prif Weinidog Cymru ar gyfer Arweinyddiaeth Llafur Cymru yn 2018 y dylid gosod “targedau rhwymol newydd” gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.<sup>59</sup>

**69.** Yn ystod 2019, gwnaethom geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru na fyddai targedau o'r fath yn arwain at ostyngiadau anniogel yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru,<sup>60</sup> yn enwedig yng ngoleuni asesiad yn 2019 gan Arolygiaeth Gofal Cymru a ddaeth i'r casgliad canlynol: “Ni welsom dystiolaeth o blant yn dod yn rhan o'r system derbyn gofal na ddylent fod wedi gwneud hynny”<sup>61</sup>.

**70.** Pan ofynnwyd a oedd awdurdodau lleol wedi cael cyllid ychwanegol i gefnogi'r “cynlluniau pwrpasol ar gyfer lleihau'r nifer o blant sydd yn derbyn gofal”, ymatebodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol trwy nodi na fu'n ofynnol iddynt gyfrifo cost y disgwyliadau hynny ar gyfer lleihau nifer y plant, ond bod arian sylweddol wedi'i roi yn y Grant Cynnal Refeniw a thrwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol i gefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol a phlant sy'n derbyn gofal.<sup>62</sup>

## **Bondiau effaith gymdeithasol.**<sup>63</sup>

**71.** Mae naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymchwilio i:

---

<sup>58</sup> StatsCymru, [Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#) a [Gwariant alldro refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid \(£ mil\)](#).

<sup>59</sup> [Maniffesto Mark Drakeford ar gyfer Arweinyddiaeth Llafur Cymru](#), 2018.

<sup>60</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gohebiaeth yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal](#), 2019.

<sup>61</sup> Arolygiaeth Gofal Cymru, [Adroddiad Trosolwg Cenedlaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal](#), 19 Mehefin 2019, t7.

<sup>62</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 285-286\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>63</sup> Disgrifir bondiau effaith gymdeithasol fel offeryn comisiynu a all alluogi sefydliadau i gyflawni contractau canlyniadau a gwneud cyllid ar gyfer gwasanaethau yn amodol ar sicrhau canlyniadau. Mae Buddsoddwyr Cymdeithasol yn talu am y prosiect ar y dechrau, ac yna'n cael taliadau yn



“[...] Fondiau Effaith Gymdeithasol fel model buddsoddi a seilir ar ganlyniadau i leihau mynd i mewn i ofal yn achos Plant sy'n Derbyngofal.”<sup>64</sup>

**72.** Pan ofynnwyd iddi am y dull hwn, nododd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwaith yn dal i fod yn archwiliadol iawn (“very exploratory”), heb unrhyw ymrwymadau eto. Wrth ymateb i bryderon ynghylch moeseg cynnwys cwmnïau preifat yn y maes hwn, nododd y Dirprwy Weinidog ei barn bersonol y byddai'n well gweithio gyda'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector ond na fyddai'n diystyru unrhyw beth.<sup>65</sup>

#### Cyllid gwasanaethau cymdeithasol a gwariant ataliol

---

**73.** Mae papur Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2020-2021 yn nodi, o'r £311 miliwn a wariwyd gan awdurdodau lleol ar blant sy'n derbyn gofal yn 2018-19:

“[...] Mae'r rhan fwyaf o'r arian yn cael ei wario ar ochr ddrutach y sbectrwm yn hytrach nag ar wasanaethau ataliol.”<sup>66</sup>

**74.** Ym mis Mawrth 2019, cafodd 9.2% o blant a oedd yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru (630 o blant) dri lleoliad neu fwy yn y flwyddyn flaenorol. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2018 i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn dangos bod costau ar gyfer un lleoliad gymaint ag £16,500 yr wythnos, gyda chost flynyddol gyfartalog lleoliad asiantaeth annibynnol bron yn ddwbl cost lleoliad awdurdod lleol.<sup>67</sup>

**75.** Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym

“[...] the huge financial pressures councils are under, coupled with the spike in demand for child protection support, mean that the limited money councils have available is increasingly being taken up with the

---

seiliedig ar y canlyniadau a gyflawnwyd gan y prosiect - gweler Llywodraeth y DU, [Guidance: Social Impact Bonds](#), ar 18 Ionawr 2020.

<sup>64</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t26

<sup>65</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 300-305\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>66</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t28.

<sup>67</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal](#).

---

provision of urgent help for children and families already at crisis point, leaving very little to invest in early intervention.”<sup>68</sup>

**76.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai cynlluniau tair blynedd yw'r cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion hyn, “so we're not expecting this to happen overnight”. Ychwanegodd:

“We've seen some encouragement—although, you know, it's very, very early days—in terms of there are fewer children for the last two years actually coming into care, which I think is a reflection of the money that we've put forward for preventative services. But, as I say, it is a long haul and we don't expect any quick results.”<sup>69</sup>

#### Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl i blant sy'n derbyn gofal

---

**77.** Yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl* a gyhoeddwyd yn 2018 gwnaethom alw am sicrhau bod anghenion iechyd emosiynol a meddwl pob plentyn sy'n ymuno â'r system ofal yn cael eu hasesu a'u diwallu. Am yr un rhesymau ag yr amlinellwyd uchod, mae dilyn yr arian mewn perthynas â hyn yn broses gymhleth.

**78.** Tynnodd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru sylw at y ffaith bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael £15 miliwn wedi'i glustnodi yn 2020-21 ar gyfer plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal fel rhan o'r Gronfa Gofal Canolraddol. Disgrifir ei phwrpas fel a ganlyn: “helpu i gryfhau trefniadau integredig rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector, mewn perthynas â gwella ataliaeth ac ymyrryd yn gynharach gyda phlant a'u teuluoedd”.<sup>70</sup>

**79.** Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod hyn ar gyfer “gwasanaethau therapiwtig” ond ni ymhelaethodd ar y cwestiwn a fyddai Llywodraeth Cymru yn fwy rhagnodol ynghylch ei defnydd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**80.** Pan ofynnwyd iddo yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 13 Ionawr 2020 am y cynnydd gyda'r argymhellion yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl* ynghylch plant sy'n derbyn gofal, cyfeiriodd Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Pobl Llywodraeth

---

<sup>68</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gohebiaeth gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), 19 Tachwedd 2019.

<sup>69</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 291\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>70</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t29.

---



Cymru at nifer o fuddsoddiadau eang gan gynnwys yn amseroedd aros CAMHS, y cynllun peilot mewngymorth CAMHS, a'r dull ysgol gyfan.<sup>71</sup>

## Hunanladdiad

**81.** Roedd pedwar o'r bobl ifanc yn y 33 achos a ystyriwyd yn adolygiad thematig Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019 o farwolaeth plant a phobl ifanc trwy hunanladdiad tebygol a ddarganfuwyd wedi bod yn derbyn gofal.<sup>72</sup>

**82.** Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch pa fuddsoddiad sy'n cael ei wneud i gefnogi anghenion iechyd emosiynol a meddyliol y grŵp hwn o blant yn benodol, nododd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, "help is needed through the whole of the system for those children".<sup>73</sup>

## EIN BARN NI

---

**83.** Rydym yn cydnabod y gwaith sydd ar y gweill i geisio mynd i'r afael â'r nifer sylweddol uwch o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Fodd bynnag, gan bod plant sy'n derbyn gofal yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, rydym yn poeni'n fawr am gyflymder y newid a'r pwysau y mae ein gwasanaethau plant yn gweithredu oddi tano.

**84.** Rhaid i ddiogelwch plant a phobl ifanc fod o'r pwys mwyaf mewn unrhyw gynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi y gellir cyflawni'r cynlluniau'n ddiogel, yn enwedig heb ymdeimlad o'r costau a fydd yn deillio.

**Argymhelliad 7.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu amlinelliad o'r amcangyfrif o gostau gweithredu eu cynlluniau pwrpasol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel, er mwyn rhoi sicrwydd i ni eu bod yn fforddiadwy.

**85.** Rydym yn croesawu pob ymdrech i archwilio ffyrdd arloesol o leihau mynediad i ofal. Er ein bod yn nodi datblygiadau yn Lloegr mewn perthynas â defnyddio Bondiau Effaith Gymdeithasol, erfyniwn ar Lywodraeth Cymru i wyllo

---

<sup>71</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, [Cofnod y Trafodion \[para 205\]](#), 13 Ionawr 2020.

<sup>72</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru, [Thematic review of deaths of children and young people through probable suicide \(2013-2017\) - Main report \[Saesneg yn unig\]](#), Rhagfyr 2019.

<sup>73</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 315\]](#), 8 Ionawr 2020.

rhag unrhyw faterion moesegol a allai godi mewn perthynas â buddsoddiad preifat.

**Argymhelliad 8.** Bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn wylidwrus o'r materion moesegol a allai godi wrth iddi fynd ati gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i archwilio'r defnydd o Fondiau Effaith Gymdeithasol i leihau mynediad i ofal.

**86.** Mae pwysigrwydd hanfodol cymorth gydag iechyd emosiynol a meddyliol i blant sy'n derbyn gofal yn cael ei enghreifftio'n drasig gan y gyfradd uwch o hunanladdiad ymhlith y rhai sy'n gadael gofal na'u cymheiriaid. Fel a nodwyd yn gynharach yn ein hadroddiad, rydym yn croesawu'r buddsoddiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd emosiynol a meddyliol pob plentyn a pherson ifanc. Fodd bynnag, nid yw'n eglur i ni faint yn union sy'n cael ei dargedu at blant sy'n derbyn gofal yn benodol, a sut mae hyn yn cael ei fonitro o ran ei effaith ar gyflawni'r argymhellion yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl*. Methodd diweddariad diweddaraf y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol inni ar gynnydd (Hydref 2019) â sôn am blant sy'n derbyn gofal unwaith.<sup>74</sup> Rydym yn bwriadu mynd ar drywydd y mater hwn yn egniol fel rhan o'n gwaith dilynol ar *Cadernid Meddwl* yn ddiweddarach y tymor hwn.

**Argymhelliad 9.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad manylach ar sut mae cymorth gydag iechyd emosiynol a meddyliol - gan gynnwys cymorth i atal hunanladdiad - ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn benodol yn cael ei ariannu yn 2020-21 a'i effaith yn cael ei fonitro.

**87.** Mewn perthynas â buddsoddi mewn cymorth ataliol i blant sy'n derbyn gofal, rydym yn pryderu ynghylch y gwrthddweud yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Dirprwy Weinidog (a gyfeiriodd at fuddsoddi arian mewn gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal) a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (a ddywedodd mai ychydig o arian sydd ar gael ar gyfer ymyrryd yn gynnar oherwydd y galwadau a osodir ar gyllidebau gan gymorth brys mewn argyfwng).

**Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu gwell ffyrdd o ddangos bod dewisiadau buddsoddi cyfredol fel y maent yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal yn effeithiol.

---

<sup>74</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Ymateb Llywodraeth Cymru i waith dilynol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Cadernid Meddwl](#), 22 Hydref 2019.

## Materion eraill

### Y Trydydd Sector

---

**88.** Codwyd nifer o bryderon gyda ni mewn perthynas â Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy y Trydydd Sector, yn enwedig gan Adoption UK Cymru.<sup>75</sup> Gwnaethom godi'r rhain gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a nododd:

- fod 30% o'r Grant (£25.9 miliwn o Ebrill 2020-23) ar gyfer plant;
- bod gweinidogion wedi cynyddu'r dyraniad gwreiddiol dros £4 miliwn i gydnabod y gwaith sy'n digwydd yn rhai o'r cynigion; a
- bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i waith mabwysiadu (a ddangosir gan fuddsoddiad o £2.3 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol weithio ar gymorth ar ôl mabwysiadu), ond y byddai'r mater a godwyd gan Adoption UK Cymru yn cael ei ystyried yn fwy manwl.<sup>76</sup>

**89.** Pan ofynasom am y £0.36 miliwn a'r £1 miliwn a ddyrannwyd yn 2020-21 i Chwarae Cymru a Cymru Ifanc yn y drefn honno, ychydig iawn o fanylion a ddarparwyd am y canlyniadau a ddisgwylir o'r swm cymharol sylweddol hwn o arian.<sup>77</sup>

**Argymhelliad 11.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu:

- amlinelliad mwy cynhwysfawr o'r canlyniadau a ddisgwylir o'r buddsoddiad yn Chwarae Cymru a Cymru Ifanc a sut mae hyn yn cael ei fonitro; a
- sicrwydd ynghylch sut mae effaith peidio ag ariannu gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenrol trwy Grant Gwasanaethau Cynaliadwy'r Trydydd Sector (e.e. yn achos Adoption UK Cymru) wedi cael ei mesur ac y bydd yn cael ei liniaru.

---

<sup>75</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gohebiaeth gan Adoption UK Cymru](#), 2 Ionawr 2020.

<sup>76</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 358-359 a 369-372\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>77</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 349 a 367\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

## Tlodi plant

---

**90.** Mae naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21 yn cydnabod, o blith pob grŵp, bod tlodi incwm cymharol yn dal i fod ar ei uchaf ymhlith plant, sef 29% o blant yng Nghymru,<sup>78</sup> yr uchaf yn y DU.

**91.** Mae ein pryderon ynghylch diffyg strategaeth ac arweinyddiaeth mewn perthynas â thlodi plant wedi bod yn glir mewn adroddiadau blaenorol ar gyllidebau drafft. Er ein bod yn derbyn bod nifer o'r prif ysgogiadau i fynd i'r afael â thlodi plant yn ymwneud â meysydd sydd heb eu datganoli - yn enwedig lles - credwn y gellid gwneud mwy i wella'r sefyllfa yng Nghymru gan ddefnyddio'r pwerau sydd gennym. Nid oedd y dystiolaeth a gawsom fel rhan o'n gwaith craffu eleni yn tawelu ein pryderon nac yn ein sicrhau bod yr ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio i'w llawn effaith.

**92.** Rydym yn parhau i fod o'r farn mai'r ffordd fwyaf tebygol o gyflawni'r lefel o waith trawsadrannol sy'n angenrheidiol yw datblygu strategaeth tlodi plant wedi'i diweddarau sydd:

- yn dangos yn glir ble y mae cyfrifoldebau unigol yn y Cabinet; ac
- yn gosod y sylfeini ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol i adlewyrchu'n glir y dyraniadau i gyflawni'r strategaeth hon a gwella canlyniadau.

**Argymhelliad 12.** Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth tlodi plant wedi'i diweddarau i roi cyfeiriad i'r ysgogiadau o fewn ei phwerau i leihau effaith tlodi plant. Dylai'r strategaeth hon gael ei datblygu mewn ffordd sy'n galluogi cyllidebau drafft yn y dyfodol i adlewyrchu'n glir y dyraniadau sydd ar gael i wella canlyniadau yn hyn o beth.

---

<sup>78</sup> Llywodraeth Cymru, [Naratif Cyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, tudalen 24

## 4. Addysg

Mae Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn cynnwys dyraniad o adnodd (refeniw) o £1.567 biliwn a £218 miliwn o gyfalaf o fewn Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) yr Adran Addysg.<sup>79</sup> Mae cyllid sy'n gysylltiedig ag addysg hefyd wedi'i gynnwys mewn llinellau cyllideb eraill, yn anad dim y Setliad Llywodraeth Leol sy'n darparu cyllidebau craidd ysgolion trwy awdurdodau lleol.

### Sefyllfa gymharol addysg

**93.** Cyda phrif ddarpariaeth addysg cyn-16 (cyllidebau craidd ysgolion) yn cael ei hariannu'n bennaf gan y Setliad Llywodraeth Leol, mae mwyafrif y MEG Addysg yn ariannu'r sectorau addysg bellach ac uwch (£1.156 biliwn o'r cyfanswm o £ 1.567 biliwn).

**94.** Dyrennir y cyllid ar gyfer addysg cyn-16 o fewn y MEG Addysg (oddeutu £400 miliwn) i gefnogi blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys diwygio'r cwricwlwm, trefniadau asesu ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), datblygu a chefnogi athrawon, y Grant Datblygu Disgyblion a gwella ysgolion.

**95.** Mae'r DEL Adnoddau Addysg yn cynyddu £56 miliwn (3.7%) yng nghyllideb ddrafft 2020-21 o'i gymharu â 2019-20 (Cyllideb Atodol Gyntaf), sydd ychydig yn is na'r cynnydd o 4.1% i DEL Adnoddau Llywodraeth Cymru ar y cyfan. Mae'r cynnydd yn cynnwys:

- Cynnydd o £23 miliwn i'r Llinell Gwariant Cyllideb (BEL) Addysg Bellach;
- Cynnydd o £13 miliwn i'r BEL Grant Datblygu Disgyblion; a
- Chynnydd o £8 miliwn i'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

**96.** Gwnaed newidiadau i linellau cyllideb eraill sydd fwy neu lai, ar y cyd, yn gynydd pellach o £12 miliwn ar y cyfan i'r MEG Addysg, gan gynnwys £2 filiwn ar gyfer BEL newydd Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles.

<sup>79</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Cyllideb Ddrafft 2020-21. Rhagfyr 2019, Atodiad B.

## Addysg cyn-16

### Cyllid ar gyfer ysgolion

---

**97.** Mae awdurdodau lleol yn cael cynnydd dros dro o 4.3% rhwng 2019-20 a 2020-21 yn eu cyllid heb ei neilltuo o'r **Setliad Llywodraeth Leol**.<sup>80</sup> Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu faint o gyllid i'w ddyrannu i addysg ac o fewn hynny i gyllidebau craidd ysgolion.

**98.** Mae'r Asesiad Seiliedig ar Ddangosydd 'Gwasanaethau Ysgol' (IBA) yn cynyddu dros dro 7.3% yn 2020-21 o 2019-20, tra bod yr IBA 'Addysg Arall' yn cynyddu dros dro 3.7%. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae'r Asesiad Gwariant Safonol (SSA) cyffredinol ar draws yr holl sectorau gwasanaeth yn cynyddu 5.4% yn setliad dros dro 2020-21, o'i gymharu â 2019-20. Fodd bynnag, mae SSAs ac IBAs yn dybiannol yn bennaf fel y cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn ystod ein hymchwiliad i gyllid ysgolion:

“Nid canllaw yw'r IBAs ar faint y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei wario ar wasanaethau unigol, faint y dylent ei wario arnynt na faint y mae angen iddynt ei wario arnynt.”<sup>81</sup>

**99.** Wrth ymateb i gwestiynau ar gyllidebau craidd ysgolion ar 8 Ionawr 2020, nododd y Gweinidog Addysg y bydd awdurdodau lleol yn cael cynnydd mewn termau real yn eu cyllideb (gyda chynnydd mewn arian parod yn amrywio rhwng 3% a thros 5%) y mae'n disgwyl iddynt ei fuddsoddi mewn addysg:

“[...] we had some very robust discussions with council colleagues, and they were very, very clear to me and to Julie James and to the Finance Minister that, if local government were given the resources, they would prioritise school and social services funding. And they gave that commitment. They continue to give that commitment, and you will be aware that WLGA has welcomed the settlement that has been made available to them. And we will continue to have those discussions with

---

<sup>80</sup> Llywodraeth Cymru, **Setliad Llywodraeth Leol**, 16 Rhagfyr 2019.

<sup>81</sup> Llywodraeth Cymru, **Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: cais am wybodaeth bellach mewn ymateb i'r adroddiad ar gyllid ysgolion**, 16 Rhagfyr 2019. DS. Mae IBAs a SSAs yn cynrychioli cyfanswm yr angen amcangyfrifedig am wariant gan awdurdodau lleol ac yn cynnwys tybiaethau ynghylch incwm o'r dreth gyngor a ffioedd a thaliadau lleol eraill.

WLGA leadership around ensuring that that money that has been available to them finds its way into school budgets.”<sup>82</sup>

### **'Cyfansoddiad' cyllid ysgolion o fewn y Setliad Llywodraeth Leol**

**100.** Yn 2019-20 rhoddwyd grant unwaith ac am byth yn ystod y flwyddyn i lywodraeth leol, yn ychwanegol at y setliad y cytunwyd arno, i dalu **cost codiadau cyflog a phensiynau athrawon**. Rhoddwyd y grant unwaith ac am byth yn ystod y flwyddyn am y gyfran o flwyddyn academaidd 2019/20 sy'n perthyn i flwyddyn ariannol 2019-20. Am weddill blwyddyn academaidd 2019/20, yn hytrach na darparu grant ar wahân, bydd adnoddau i dalu costau ychwanegol cylch cyflogau a phensiynau cyfredol athrawon yn cael eu hychwanegu at Grant Cynnal Refeniw 2020-21. Dywedodd y Gweinidog Addysg:

“I don't want to prejudge or anticipate anything that the teachers' pay review body may or may not do with the processes that they are currently in, but we believe that we have put into the RSG resources that will allow local government to respond to the costs of teachers' pay and pensions, as they currently stand.”<sup>83</sup>

**101.** Pan ofynnwyd am **gyllid canlyniadol Barnett sy'n deillio o gyhoeddiadau Llywodraeth y DU ynghylch cyllid ar gyfer addysg yn Lloegr** a sut y cawsant eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, ymatebodd y Gweinidog Addysg trwy ddisgrifio'r broses fel un “gymhleth”:

“[...] in Westminster, certainly with regard to education spend, there is a mixture of that money that's being made available in-year, and then there are significant figures being bandied around that relate to spending supposedly over the next three, four—you know, longer term. So, we're not in a position to respond to that, because we only have the budget we do for one year.”<sup>84</sup>

**102.** Mewn gwybodaeth a gafwyd yn dilyn ein sesiwn graffu ar 8 Ionawr, cadarnhaodd y Gweinidog – o'r cynnydd o £596 miliwn yng nghyllideb Llywodraeth Cymru rhwng 2019-20 a 2020-21 sy'n deillio o Gylch Gwariant Hydref Llywodraeth y DU – fod £196 miliwn i'w briodoli i godiadau mewn gwariant ar addysg yn Lloegr. Ychwanegodd y Gweinidog, o'r cyllid canlyniadol Barnett hwn o

---

<sup>82</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 6\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>83</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 15\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>84</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 24\]](#), 8 Ionawr 2020.

---



£196 miliwn ar gyfer addysg, fod tua £150 miliwn yn ymwneud yn benodol â gwariant ar ysgolion.<sup>85</sup>

**103.** Mewn tystiolaeth lafar, eglurodd y Gweinidog, yng nghyd-destun cyllid canlyniadol Barnett, fod cynrychiolwyr llywodraeth leol yn rhagweld “a like for like move into their responsibilities” ac mai “around £220 million” fyddai hwn. Meddai:

“[...] we have been able to use the money going into local government—that’s for social care and education—and we’ve been able to approximately match that [£220 million] going in”.<sup>86</sup>

**104.** Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd ar ôl ein sesiwn yn nodi:

- bod y £220 miliwn a roddwyd i mewn i'r Setliad Llywodraeth Leol yn mynd y tu hwnt i'r cyllid canlyniadol Barnett o £1509 miliwn a £59 miliwn yn 2020-21 i ysgolion a gofal cymdeithasol yn y drefn honno; ac
- yn ychwanegol at y £150 miliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i awdurdodau lleol ar gyfer cyllidebau ysgolion, bod cyllid adnoddau yn y MEG Addysg wedi cynyddu £56 miliwn.

**105.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r £196 miliwn hwn o gyllid addysg canlyniadol Barnett ar gyfer addysg yng Nghymru, rydym yn nodi ei fod heb ei neilltuo, yn amodol ar IBAs tybiannol yn bennaf (gweler paragraff 98) a'i fod yn ddibynnol ar ddefnyddio'r cyllid at y diben hwn gan awdurdodau lleol.<sup>87</sup>

**106.** Yn dilyn y sesiwn gyda'r Gweinidog Addysg, gwnaethom ofyn am fanylion swm y dyraniad ar gyfer addysg a gynhwysir yng Ngrant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol 2020-21, gyda dadansoddiad sy'n cynnwys manylion faint y bwriedir iddo dalu costau uwch cyflogau a phensiynau athrawon a faint sydd ar ôl i ddarparu codiad gwirioneddol ar gyfer ysgolion. Roedd ymateb y Gweinidog Addysg yn dweud y byddai'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn darparu'r wybodaeth hon;<sup>88</sup> fodd bynnag, ni chafwyd hon mewn pryd i ni ei hystyried fel rhan o'n hadroddiad.

---

<sup>85</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y Gweinidog Addysg yn dilyn y sesiwn ar y Cyllideb Ddrafft ar 8 Ionawr](#), 23 Ionawr 2020.

<sup>86</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 27\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>87</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y Gweinidog Addysg yn dilyn y sesiwn ar y Cyllideb Ddrafft ar 8 Ionawr](#), 23 Ionawr 2020.

<sup>88</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y Gweinidog Addysg yn dilyn y sesiwn ar y Cyllideb Ddrafft ar 8 Ionawr](#), 23 Ionawr 2020.

---



## EIN BARN NI

**107.** Mewn adroddiadau blaenorol ar Gyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru rydym wedi codi pryderon ynghylch y cyllid sydd ar gael i ysgolion. Yn ein hadroddiad yn 2019 ar gyllid ysgolion gwnaethom fyfyrion ar y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â sut mae ysgolion yn cael eu harian a gwneud nifer o argymhellion pwysig ynghylch sut y dylid mynd i'r afael â'r heriau gwirioneddol iawn sy'n wynebu ein hysgolion. Rydym yn edrych ymlaen at fonitro'r broses o weithredu ein hargymhellion, a chanfyddiadau Adolygiad Sibieta a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'n gwaith.

**108.** Rydym yn croesawu'r cynnydd yng nghyllid awdurdodau lleol yn setliad 2020-21, a'r ymrwymiad a roddwyd gan lywodraeth leol i'w ddefnyddio i flaenoriaethu cyllid ysgolion a gofal cymdeithasol. Serch hynny, nodwn y pryderon parhaus yn y sector addysg ac ymhlith y cyhoedd ynghylch cyllid ysgolion. Er mwyn ceisio tawelu rhai o'r pryderon hynny, credwn:

- y bydd angen i broses Llywodraeth Cymru o fonitro'r modd yr ymlynir wrth yr ymrwymadau a wnaed gan lywodraeth leol fod yn gadarn ac yn dryloyw;
- er gwaethaf yr egwyddor o wneud penderfyniadau datganoledig, o ystyried yr hinsawdd ariannu gyfredol sy'n wynebu ein hysgolion, y dylai cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer 2020-21 a gafwyd gan Lywodraeth y DU y gallir ei briodoli i godiadau mewn gwariant ar addysg yn Lloegr gael ei flaenoriaethu ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

**Argymhelliad 13.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu datganiadau blynyddol i'r Cynulliad sy'n dangos y dystiolaeth a argyhoeddodd Gweinidogion Cymru fod llywodraeth leol yn blaenoriaethu cyllid ysgolion, a sut mae hyn yn cael ei fonitro.

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i flaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg yn 2020-21 o unrhyw gyllid canlyniadol Barnett a geir gan Lywodraeth y DU y gallir ei briodoli i godiadau mewn gwariant ar addysg yn Lloegr

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**109.** Mae cymorth ar gyfer darpariaeth ADY bresennol a'r rhaglen drawsnewid sy'n deillio o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg

(Cymru) 2018 wedi cael ei amlygu gan awdurdodau lleol fel pwysau allweddol ar gyllid.<sup>89</sup>

**110.** Wrth ymateb i gwestiynau am yr adnodd sydd ar gael i gefnogi ADY, nododd y Gweinidog fod £9.4 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddyrannu yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 mewn ymateb i bwysau cyfredol, cyn trawsnewid.<sup>90</sup> Ceisiodd y Gweinidog Addysg egluro'r gwahaniaethau canlynol rhwng y tair ffrwd ariannu sy'n gysylltiedig ag ADY:

- £20 miliwn yn ystod y Cynulliad hwn i ariannu gwaith **diwygio ADY** (i gael ei arwain gan arweinwyr trawsnewid rhanbarthol a'i ddefnyddio ar feysydd fel cymorth pontio, datblygu'r gweithlu, codi ymwybyddiaeth o'r system, a rhoi cymorth i roi polisi ar waith);<sup>91</sup>
- £1.4 miliwn ar gyfer 2020-21, mewn ymateb i gostau uwch sy'n gysylltiedig â lleoliadau **arbenigwyr addysg bellach ôl-16** (cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru);<sup>92</sup> ac
- £8 miliwn ar gyfer 2020-21, "to recognise some of the **pressure in the current system**" (cyfrifoldeb awdurdodau lleol ac ysgolion).<sup>93</sup>

## EIN BARN NI

---

**111.** Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith craffu mewn perthynas â chymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac rydym yn cydnabod bod cymorth presennol a'r diwygiadau sydd ar ddod yn ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddiad ariannol sylweddol gael ei gyflawni'n effeithiol. Felly, rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 i fynd i'r afael â'r pwysau cyfredol mewn cymorth gydag ADY cyn ac ar ôl 16 oed.

**112.** Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cod Drafft ADY ym mis Mawrth 2019, gwnaethom y sylw canlynol:

---

<sup>89</sup> Gweler y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Adroddiad Cyllid Ysgolion](#), Gorffennaf 2019, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Ymateb i'r Cod Drafft ADY](#), 22 Mawrth 2019.

<sup>90</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 67\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>91</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 31\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>92</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 65\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>93</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 67\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

“Rydym yn hynod bryderus bod risg y bydd adnoddau annigonol (boed ar ffurf cyllid neu staff) yn bygwth y gallu i roi'r Ddeddf ar waith yn llwyddiannus a chyflawni yn erbyn y Cod.”<sup>94</sup>

**113.** Gwnaethom hefyd alw am ddatganiad penodol na ddylid lleihau'r trothwy angen - y sbardun ar gyfer cymorth ADY - o ganlyniad i gostau uwch cefnogi plant a phobl ifanc o dan y system newydd. Mae'r diffiniad o ADY o dan y Ddeddf newydd yr un fath yn sylweddol ag ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ar hyn o bryd, a rhaid cydnabod hyn yn llawn.

**114.** Er ein bod yn croesawu'r arian ychwanegol i fynd i'r afael â phwysau sy'n gysylltiedig â'r system bresennol, mae'r angen am hyn yn codi cwestiynau pellach ynghylch yr hyn y bydd ei angen i gyflawni'r diwygiadau sylweddol. Yng ngoleuni'r angen i addasu'r gyllideb sydd ar gael i gwrdd â'r costau a ddisgrifiwyd gan y Gweinidog Addysg fel “above and beyond what we had initially anticipated to spend in ALN”,<sup>95</sup> byddem yn croesawu rhagor o fanylion am y gwaith y mae ei hadran yn ei wneud i ragweld fforddiadwyedd gwasanaethau ADY yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried maint y diwygiadau.

**Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu crynodeb o'r camau y mae'n eu cymryd i fireinio costau ADY a ragwelir yn y dyfodol a sut y mae'n ei sicrhau ei hun a'r sector eu bod wedi'u costio ac yn fforddiadwy.

**Argymhelliad 16.** Bod Llywodraeth Cymru, fel y gofynnwyd amdano yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cod Drafft ADY, yn gwneud datganiad clir:

- bod rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion barhau i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y system bresennol; a
- bod rhaid peidio â lleihau'r trothwy sy'n berthnasol i nodi ADY o dan y system newydd, ar sail cost.

**Argymhelliad 17.** Bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau:

- faint o gyllid canlyniadol Barnett ar gyfer 2020-21 y mae wedi'i gael gan Lywodraeth y DU y gellir ei briodoli i godiadau mewn gwariant ar Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND) yn Lloegr; a

---

<sup>94</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymateb i'r Cod Drafft ADY, 22 Mawrth 2019.

<sup>95</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 67], 8 Ionawr 2020.

---

- sut y dangosir hyn ym MEG Addysg 2020-21 a'r MEG Tai a Llywodraeth Leol (Setliad Llywodraeth Leol) yn eu tro.

## Y Grant Datblygu Disgyblion

---

**115.** Defnyddir y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) gan Lywodraeth Cymru i gefnogi disgyblion difreintiedig a lleihau'r bwch yn eu cyrhaeddiad o'i gymharu â disgyblion eraill.<sup>96</sup> Fe'i cyfrifir ar sail cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim. Erbyn hyn mae gwariant ar y grant yn fwy na £100 miliwn y flwyddyn (sy'n cynrychioli tua 7% o gyfanswm y gwariant, a thua chwarter y gwariant oed ysgol, o'r DEL Adnoddau Addysg).<sup>97</sup>

**116.** Yn ein hadroddiad yn 2018 ar gyllid wedi'i dargedu, *Cyrraedd y Nod?*, gwnaethom fynegi ein cefnogaeth gyffredinol i'r Grand Datblygu Disgyblion ond gwnaethom ddadlau y gellid gwella'r ffordd yr oedd yn cael ei dargedu a'i ddefnyddio.

**117.** Yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21, mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael £9.4 miliwn yn ychwanegol, wedi'i ddsbarthu fel a ganlyn:

- £6.6 miliwn ar gyfer **Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar**, i gynyddu'r swm fesul plentyn cymwys o £700 i £ 1,150, yr un fath ag ar gyfer Blynyddoedd 1-11;
- £2 filiwn i gwrdd â'r **cynnydd yn y galw** a ragwelir; ac
- £800,000 i ariannu blaenoriaethau gan gynnwys cefnogi plant personél y lluoedd arfog.<sup>98</sup>

**118.** Pan ofynnwyd iddi a oedd hi'n hyderus bod y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion fel a fwriadwyd, nododd y Gweinidog Addysg a Chyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru:

- fod telerau'r grant yn glir i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol;<sup>99</sup>

---

<sup>96</sup> Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig - Grant Datblygu Disgyblion](#), 27 Mawrth 2017.

<sup>97</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, Atodiad A.

<sup>98</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, Atodiad A.

<sup>99</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 47\]](#), 8 Ionawr 2020.

- bod ymgynghorwyr her consortia rhanbarthol yn adrodd ar ddefnydd priodol o'r Grant Datblygu Disgyblion;<sup>100</sup>
- y bydd monitro perfformiad plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) yn parhau i fod yn ffocws cryf mewn mesurau atebolrwydd newydd;<sup>101</sup>
- bod cynghorwyr Grant Datblygu Disgyblion ym mhob un o'r consortia rhanbarthol yn rhoi cyngor ar sail tystiolaeth ynghylch y dulliau a'r ymyriadau gorau i'w defnyddio;<sup>102</sup> a
- bod gan fwyafrif yr ysgolion bellach "system dracio gref" sy'n galluogi ymgynghorwyr her ac Estyn i nodi gwariant yn y maes hwn a gwerthuso ei effaith.<sup>103</sup>

**119.** Wrth ymateb i gwestiynau pa un a oedd y buddsoddiad yn dangos gwerth am arian o ran ei effaith, nododd y Gweinidog Addysg fod gwersi i'w dysgu bob amser, ond bod adolygiadau bob hyn a hyn o effeithiolrwydd gwariant wedi bod yn gadarnhaol. Ychwanegodd fod gwelliannau diweddar yng nghylch y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 2018 hefyd wedi dangos ei werth:

"[...] what it showed in those PISA results is that a child's economic background—in Wales, you're more likely to overcome that disadvantage than the OECD average. We're able to make improvements, and we can have a discussion about how significant those improvements are, but we have made improvements. But, we have not done that at the expense of our poorer children; we have not done that. And that's just one indication that I think that this money is worth while."<sup>104</sup>

**120.** Mewn perthynas â Grant Datblygu Disgyblion y blynyddoedd cynnar, eglurodd y Gweinidog Addysg ei bod wedi dyblu'r arian sydd ar gael yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21 ar y sail efallai na fyddai dyraniadau blaenorol wedi bod yn ddigonol i fod yn effeithiol. Dywedodd fod hyn yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i thema drawsbynciol tlodi plant a datblygiad y blynyddoedd

---

<sup>100</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 47\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>101</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 47\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>102</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 50\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>103</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 49\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>104</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 36\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

cynnar, a bod y buddsoddiad yn cydnabod y gall ymyrryd yn gynnar fod yn ataliol ac arbed costau yn y tymor hir.<sup>105</sup>

**121.** Pan ofynnwyd iddi am y £2 filiwn a ddyrannwyd ar gyfer “**cynnydd yn y galw**”, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg:

“[...] we have more children in the system at the moment who would not be caught by the historic PLASC data that we've used for the last two years. This has been a concern to schools, it's been a concern to me and therefore we've been able to allocate the £2 million.”<sup>106</sup>

## **Y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad**

**122.** Mae Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn cynnwys £3.2 miliwn ychwanegol i ehangu'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad ymhellach, gan ddod â chyfanswm y dyraniad i oddeutu £8.3 miliwn.<sup>107</sup> Ar hyn o bryd mae grantiau ar gael ar gyfer costau unffurf a chostau eraill i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y Dosbarth Derbyn a Blynnyddoedd 3, 7 a 10 yn ogystal â phob plentyn sy'n derbyn gofal.

**123.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i estyn y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad i **fwy o grwpiau blwyddyn**.<sup>108</sup> Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg fod gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r defnydd gorau o'r £3.2 miliwn, a fyddai'n cynnwys ystyried meysydd fel **offer ysgol, a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, a gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol** ac ychwanegodd y byddai cyhoeddiad pellach yn cael ei wneud yn fuan.<sup>109</sup>

## **EIN BARN NI**

---

**124.** Yn ystod y Cynulliad hwn rydym wedi neilltuo cryn dipyn o amser craffu i'r Grant Datblygu Disgyblion, o ran Cyllidebau Ddrafft Llywodraeth Cymru ac mewn perthynas â'n hadroddiad yn 2018 ar gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau

---

<sup>105</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 37\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>106</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 43\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>107</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t15.

<sup>108</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t5.

<sup>109</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 53\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

addysgol. Rydym wedi blaenoriaethu'r maes hwn gan ein bod am sicrhau bod y gwariant sylweddol hwn yn achosi lefel gymesur o effaith.

**125.** Rydym yn parhau i bryderu ynghylch y dystiolaeth a gyflwynwyd i'n hymchwiliad yn 2018 nad oedd y Grant Datblygu Disgyblion bob amser yn cael ei ddefnyddio ar gyfer disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim yn unig a bod angen gwneud mwy i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n dda. Rydym yn croesawu'r camau y mae'r Gweinidog Addysg a'i swyddogion wedi'u cymryd i fonitro hyn. O ystyried yr heriau a wynebwr gan ysgolion yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n drylwyr i fonitro defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion ac effaith y gwariant arno.

**126.** Nodwn yr addasiad o £2 filiwn i ymateb i'r "cynnydd yn y galw" am y Grant Datblygu Disgyblion. Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gwrdd â'r cynnydd a ragwelir, gan bod cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi codi o 17.4% ym mis Ionawr 2018 i 18.3% ym mis Ionawr 2019.<sup>110</sup> Credwn y dylid defnyddio'r data wedi'i ddiweddararu ar blant a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2019 ar gyfer pennu dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ysgolion yn 2020-21 lle mae hyn yn uwch na ffigurau Ionawr 2016 a ddefnyddiwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er mwyn adlewyrchu'r niferoedd uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim y mae'r Grant Datblygu Disgyblion yno i'w cefnogi.

**127.** Rydym yn cydnabod bod cyfradd y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng o 18.4% ym mis Ionawr 2016 i 17.8% ym mis Ionawr 2017 ac 17.4% ym mis Ionawr 2018. Rydym yn cydnabod ymhellach bod pennu dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ysgolion yn 2018-19 a 2019-20 yn ôl data Ionawr 2016 wedi cynyddu i'r eithaf faint o arian Grant Datblygu Disgyblion a dynnwyd i lawr yn gyffredinol. Serch hynny, fel a nodwyd gennym yn ein hadroddiad yn 2018, mae'n debygol bod rhai ysgolion wedi mynd yn groes i'r duedd genedlaethol a bod niferoedd eu disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu, a'u bod felly ar eu colled trwy beidio â chael cymaint o Grant Datblygu Disgyblion ag y byddent wedi bod â hawl iddo fel arall. Nid yw'n eglur pa asesiad a wnaed o effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru i bennu dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion 2018-19 a 2019-20 yn ôl lefelau Ionawr 2016 ar ysgolion unigol a faint o ysgolion a oedd ar eu colled o ganlyniad.

**Argymhelliad 18.** Bod Llywodraeth Cymru yn dychwelyd at bennu dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ysgolion yn ôl y data diweddaraf ar nifer eu disgyblion

<sup>110</sup> StatsCymru, [Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2019](#), Gorffennaf 2019.



sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, lle mae hyn yn uwch na ffigurau Ionawr 2016 a ddefnyddiwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Diwygio'r cwricwlwm

---

**128.** Roedd cyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn darparu £9 miliwn a £15 miliwn yn y drefn honno ar gyfer **dysgu proffesiynol athrawon** i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 unwaith eto yn darparu £15 miliwn at y diben hwn yn ogystal â £750,000 ychwanegol ar gyfer y broses o ddylunio'r cwricwlwm a £1 miliwn i Cymwysterau Cymru i ariannu gwaith **diwygio cymwysterau** i adlewyrchu newidiadau i'r cwricwlwm.<sup>111</sup>

**129.** Pan ofynnwyd iddi a oedd y swm hwn yn ddigonol, dywedodd y Gweinidog Addysg wrth ymateb mai hwn oedd y buddsoddiad unigol mwyaf mewn dysgu proffesiynol a wnaed (gan ei fod oddeutu £1000 am bob aelod o staff cyfwerth ag amser llawn).<sup>112</sup> Ychwanegodd fod penaethiaid wedi ei ddisgrifio fel rhywbeth "trawsnewidiol" a "game changer for them in terms of being able to prepare for the new curriculum".<sup>113</sup> Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd mai ei bwriad oedd sicrhau bod y £15 miliwn ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon yn cyrraedd "y rheng flaen".<sup>114</sup>

**130.** Mewn gwybodaeth a gafwyd yn dilyn ein sesiwn graffu ar 8 Ionawr, dywedodd y Gweinidog Addysg fod Llywodraeth Cymru yn cael adroddiadau tymhorol gan y consortia rhanbarthol a'i bod "ensuring that schools' Professional Learning plans are signed off by their Challenge Advisers using demanding quality criteria". Dywedodd y Gweinidog y bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.<sup>115</sup>

## EIN BARN NI

---

**131.** Rydym wedi datgan yn gyson ein barn bod yn rhaid mai'r gweithlu yw ein hased cryfaf er mwyn inni achub ar y cyfle unwaith mewn cenhedlaeth a gynigir gan y cwricwlwm newydd. Yng ngoleuni hyn - ac yn unol â'n casgliad ar Gyllideb Ddrafft y llynedd a'n hadroddiad yn 2017 ar addysg a dysgu proffesiynol

---

<sup>111</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 73-74\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>112</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 76\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>113</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 78\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>114</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 93\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>115</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y Gweinidog Addysg yn dilyn y sesiwn ar y Gyllideb Ddrafft ar 8 Ionawr](#), 23 Ionawr 2020.



athrawon<sup>116</sup>- rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd i ariannu'r dysgu proffesiynol angenrheidiol yn 2020-21 i sicrhau bod y gweithlu'n barod am newidiadau sylweddol sydd ar ddod i'r cwricwlwm. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru adolygu'r lefelau cyllid hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i'w gwneud yn bosibl cyflawni'r diwygiadau hyn yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 19.** Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu lefelau pob agwedd ar gyllid perthnasol i gefnogi diwygio'r cwricwlwm yn gyson—boed yn ddysgu proffesiynol athrawon, dylunio'r cwricwlwm neu ddiwygio cymwysterau—i sicrhau eu bod yn ddigonol i gyflawni a chefnogi'r broses o weithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol.

Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig/Dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

---

**132.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw'r cyllid grant ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ac mae'n ei gynyddu o £8.7 miliwn yn 2019-20 i £10 miliwn yn 2020-21. Bwriad Llywodraeth Cymru fu prif-ffrydio'r cyllid hwn o fewn y Grant Cynnal Refeniw yn 2020-21 ar ôl dwy flynedd o gyllid grant trosiannol yn 2018-19 a 2019-20.<sup>117</sup>

## EIN BARN NI

---

**133.** Rydym yn croesawu cadw cyllid grant wedi'i glustnodi i gefnogi addysg Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a'r cynnydd i'r cyllid hwn. Roedd ein hadroddiad ym mis Chwefror 2017 yn cyfleu'r achos dros gyllid wedi'i glustnodi i sicrhau bod ymyriadau i gefnogi'r dysgwyr hyn yn barhaus ac yn gynaliadwy.<sup>118</sup>

**134.** Roeddem yn bryderus pan gynigiodd Llywodraeth Cymru ddwy flynedd yn ôl y byddai'n cael gwared ar y cyllid hwn gyda'r disgwyliad y byddai'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu â'r Grant Cynnal Refeniw. Rydym felly'n croesawu eglurhad y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu prif-ffrydio'r arian hwn o fewn

---

<sup>116</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Adroddiad Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon](#), Rhagfyr 2017.

<sup>117</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y Gweinidog Addysg yn dilyn y sesiwn ar y Cyllideb Ddrafft ar 8 Ionawr](#), 23 Ionawr 2020.

<sup>118</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig](#), Chwefror 2017.

---

y Grant Cynnal Refeniw mwyach ond y bydd yn parhau i roi cyllid grant ar yr un sail ag ar hyn o bryd.<sup>119</sup>

## Addysg ôl-16

**135.** Mae'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 (sy'n ariannu addysg bellach, chweched dosbarth, dysgu oedolion yn y gymuned a nifer o weithgareddau llai) wedi cael dyraniad ychwanegol o £22.9 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21, gan ei gynyddu i £460 miliwn.<sup>120</sup>

**136.** Mae cyfran sylweddol o'r cynnydd hwn yn ymateb i **bwysau chwyddiant cyflogau, pensiwn a demograffig**.<sup>121</sup> Mae tua £17 miliwn o'r dyraniad ychwanegol wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer **addysg bellach**.<sup>122</sup>

**137.** Mae disgwyl i'r **dyraniadau manwl** o fewn y Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 gael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2020. Cadarnhaodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog mai'r rheswm dros hyn oedd bod setiau data terfynol yn dal i gael eu harchwilio.<sup>123</sup> Mae hyn yn golygu na allwn graffu ar y dyraniadau i sefydliadau addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, na'r rhaglenni llai sydd hefyd yn cael eu hariannu trwy'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 ar hyn o bryd. Roedd hwn yn fater a godwyd gennym yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2019.

### Chweched dosbarth

---

**138.** Mae setliad Llywodraeth Leol 2020-21 yn dangos gostyngiad yn y grant **Chweched dosbarth** o £94.7 miliwn i £93.9 miliwn.

**139.** Pan ofynnwyd iddi pam fod y grant wedi mynd yn llai, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg ei fod yn adlewyrchu'r newid yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio mewn chweched dosbarth traddodiadol gyda niferoedd cynyddol yn astudio mewn lleoliadau eraill, ac ychwanegodd:

---

<sup>119</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y Gweinidog Addysg yn dilyn y sesiwn ar y Gyllideb Ddrafft ar 8 Ionawr](#), 23 Ionawr 2020.

<sup>120</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, Atodiad A.

<sup>121</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, Atodiad A.

<sup>122</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, Atodiad A.

<sup>123</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t42.

“The budget is aligned to, and the formula is aligned to reflect, actually, where the students are in the system.”<sup>124</sup>

## Colegau addysg bellach

---

**140.** Pan ofynnwyd iddi sut y mae Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn cefnogi **colegau addysg bellach** i ddarparu cyrsiau mwy hyblyg ac ymatebol yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu mwy o hyfforddiant galwedigaethol i ateb gofynion cyflogwyr, nododd y Gweinidog Addysg fod £ 10 miliwn yn cael ei ddyrannu i'r gronfa datblygu sgiliau yn 2020-21, fel yn 2019-20 . Ychwanegodd fod y gronfa hon:

“[...] allows colleges to respond to the training and priorities identified by the regional skills partnerships.”<sup>125</sup>

## EIN BARN NI

---

**141.** Mae buddsoddi mewn addysg a sgiliau ôl-16 yn allweddol i wella cyflogadwyedd a chynhyrchiant. Mae'r rhain yn gyfranwyr hanfodol at gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu ffyniant a lleihau'r bwlch cyfoeth. Yng ngoleuni hyn, rydym yn croesawu'r dyraniad ychwanegol o £22.9 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.

**142.** Serch hynny, gwnaed y cynnydd hwn mewn cyllid i gwrdd â chostau chwyddiant a galw, nid i gynyddu lefel y cyllid am bob dysgwr. Felly mae'n annhebygol o gynnig modd i gyflawni'r newid sylweddol y mae ei angen i ymateb yn well i anghenion sgiliau a helpu i gyrraedd nod Llywodraeth Cymru, sef hawl i ddysgu gydol oes. O ystyried y cyfraniad hanfodol y mae cynyddu lefelau sgiliau yn ei wneud i gynyddu cynhyrchiant a ffyniant, credwn fod angen mwy o uchelgais.

**143.** Nodwn fod y cyllid a ddyrennir i sefydliadau addysg bellach ar gyfer cyflogaeth a sgiliau, a dysgu seiliedig ar waith, yn perthyn i'r MEG Economi a Thrafnidiaeth ac yn cael ei ystyried fel rhan o waith craffu ar y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

**Argymhelliad 20.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar ddyraniadau manwl o fewn y Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 unwaith y byddant wedi cael eu cytuno a'u cwblhau.

---

<sup>124</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 146\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>125</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 148\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

## Addysg uwch

### Cyngor Cylludo Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

---

**144.** Mae'r cam gweithredu Addysg Uwch wedi cael dyraniad ychwanegol o £38.3 miliwn, gan gynyddu **cyllideb CCAUC** i £178.2 miliwn.<sup>126</sup> Mae hyn yn unol â bwriad datganedig Llywodraeth Cymru i barhau i drosglwyddo arbedion o ddiwygiadau cymorth myfyrwyr Diamond yn ôl i'r sector trwy CCAUC.<sup>127</sup>

**145.** Mewn perthynas â chyllideb CCAUC ar gyfer **prentisiaethau lefel gradd**, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai Llywodraeth Cymru yn anrhydeddu ei hymrwymiad i ddarparu £20 miliwn dros dair blynedd. Gydag £8 miliwn eisoes wedi'i ddyrannu, a £7 miliwn ychwanegol y darperir ar ei gyfer yn ei ddyraniad yn 2020-21, esboniodd y Gweinidog y byddai'r £5 miliwn sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo trwy gyllideb atodol o gyllid a ddelir ar hyn o bryd o dan linellau cyllideb datblygu economaidd.<sup>128</sup>

## EIN BARN NI

---

**146.** Rydym yn croesawu cadarnhad y Gweinidog Addysg, yn unol â'i bwriad datganedig i flaenoriaethu'r broses o weithredu diwygiadau Diamond heb effeithio'n negyddol ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer addysg uwch:

"[...] the figures that we're able to make available to HEFCW are in line with our expectations, and the expectations we would have shared with the sector. So, the budget aligns to the direction of travel that we set out at the beginning of this Assembly term, [...] in dialogue with the sector, and it shows that our reforms are on track. We're not overperforming, we're not underperforming; we're able to do what we said we were going to do."<sup>129</sup>

**Argymhelliad 21.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau Difidend Diamond dangosol wedi'u diweddarau sy'n dangos cyfanswm amcanol

---

<sup>126</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, Atodiad A.

<sup>127</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, Atodiad A.

<sup>128</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 120\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>129</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 111\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

y Difidend a'r swm rhagamcanol sy'n dod ar gael bob blwyddyn yn ystod y broses weithredu barhaus.

**147.** Rydym yn falch o nodi bod y £35 miliwn, sef swm y gostyngiad yn y gyllideb cymorth myfyrwyr (oherwydd arbedion yn sgîl diwygiadau Diamond), yn cyfateb yn union i drosglwyddiad cyfwerth o £35 miliwn i gyllideb CCAUC. Mae'r trosglwyddiad hwn yn golygu bod cyllideb CCAUC yn unol â'r rhagolwg ar gyfer 2020-21 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar ein cyfer mewn gohebiaeth dyddiedig 5 Rhagfyr 2018.<sup>130</sup>

**148.** Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu bod elfen allweddol o ddiwygiadau Diamond - darparu mynediad i fyfyrwyr at gymorth gyda chostau byw ar lefel sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Cenedlaethol bob blwyddyn - yn cael ei chyflawni trwy gynyddu faint o fenthyciadau y gall myfyrwyr eu cyrchu bob blwyddyn, yn hytrach na chynyddu swm y grant cynhaliath. Pan ofynnwyd iddi am hyn, eglurodd y Gweinidog:

“[...] it's a question around affordability and sustainability. So, students will, in total, be able to receive support equivalent to the living wage, but we will not, in this term, be increasing the grant element in line with inflation.”<sup>131</sup>

**149.** Am weddill y Cynulliad hwn byddwn yn parhau i fonitro'r broses o weithredu diwygiadau Diamond wrth iddynt ymsefydlu'n llawn. Fel rhan o'n gwaith etifeddiaeth, byddwn yn argymhell bod ein holynydd-bwyllgor yn gwneud y gwaith monitro hwn dros yr ychydig flynyddoedd academiaidd nesaf.

**Argymhelliad 22.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi beth fyddai'r costau i bwrs y wlad yn ystod tymor presennol y Cynulliad pe bai'r grantiau cynhaliath Diamond yn cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant yn hytrach na chynyddu'r benthyciad cynhaliath.

**150.** Nodwn ddatganiad y Gweinidog y bydd yr arian sy'n weddill ar gyfer prentisiaethau lefel gradd yn cael ei drosglwyddo i'r gyllideb addysg uwch fel rhan o gyllideb atodol, ond byddem yn croesawu manylion pellach ynghylch pam nad yw'r trosglwyddiad hwnnw'n ymddangos yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.

---

<sup>130</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg](#), 5 Rhagfyr 2018.

<sup>131</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 126\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

**Argymhelliad 23.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi pam nad yw'r trosglwyddiad llawn o £12 miliwn y mae ei angen i gyflawni ei hymrwymiad ynglŷn â phrentisiaethau lefel gradd wedi'i gynnwys yn ei Chyllideb Ddrafft 2020-21 ond y bydd yn dilyn yn hytrach mewn cyllideb atodol.

## Pensiynau

---

**151.** Yn ôl CCAUC, mae costau a diffygion pensiwn cyfnewidiol a chynyddol yn achosi cryn ansicrwydd a lefelau uchel o risg ariannol i'r sector addysg uwch.<sup>132</sup>

**152.** Yn wahanol i achos dyraniadau sy'n ymwneud ag addysg bellach, nid yw Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn cynnwys swm wedi'i neilltuo mewn ymateb i bwysau costau pensiwn mewn addysg uwch.<sup>133</sup>

**153.** Pan ofynnwyd iddi am fater pensiynau addysg uwch, ymatebodd y Gweinidog Addysg fel a ganlyn:

“[...] we are not in a position, on a Wales-alone basis, to tackle the issue of higher education pensions. This is a matter that has to be dealt with on a UK level. We continue to push the UK Government and Treasury with regard to this matter, but I'm sure that even HEFCW and Universities Wales would be the first to recognise that this is not an issue that Wales can tackle on its own. Given that we have to make priorities around how public resources and education resources are spent, this is really a matter that has to be dealt with at a UK level.”<sup>134</sup>

## EIN BARN NI

---

**154.** Nodwn ddatganiad y Gweinidog Addysg fod pensiynau addysg uwch yn fater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef ar lefel y DU, ac rydym yn cydnabod yr heriau y mae hyn yn eu hachosi. Serch hynny, o ystyried pwysigrwydd hanfodol y sector hwn a'i staff i Gymru a'i heconomi, byddem yn croesawu gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru am sut y mae wedi ei sicrhau ei hun mewn perthynas â rheolaeth y sector ynghylch y risgiau i'w gynaliadwyedd a grëir gan ansicrwydd

---

<sup>132</sup> CCAUC, [Financial position of higher education institutions in Wales: 2016/17](#). [Saesneg yn unig]. Mawrth 2019.

<sup>133</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#). Rhagfyr 2019.

<sup>134</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. [Cofnod y Trafodion \[para 14.3\]](#), 8 Ionawr 2020.

---

pensiynau, a pha gamau y mae wedi'u cymryd mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

**Argymhelliad 24.** Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu:

- y dirwedd fel y mae'n ymwneud â phensiynau yn y sector addysg uwch o ran pwerau a chyfrifoldebau Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU a rôl sefydliadau addysg uwch eu hunain;
- y camau y mae wedi'u cymryd i fonitro'r modd y mae'r sector yn rheoli'r risgiau i'w gynaliadwyedd a grëir gan ansicrwydd pensiynau;
- ei hasesiad o effaith bosibl y risgiau hyn i'r sector a'r tu hwnt; a hefyd
- y camau y mae wedi'u cymryd mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

### Benthycu a llywodraethu prifysgolion

---

**155.** Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 yn cynnwys cyllid cyfalaf o £10 miliwn ar gyfer CCAUC.<sup>135</sup> Ym mlwyddyn academiaidd 2016/17, gwnaeth y sector addysg uwch fuddsoddiadau cyfalaf o £151 miliwn, gyda'r gweddill yn cael ei ariannu o ffynonellau eraill, gan gynnwys benthycu.<sup>136</sup>

**156.** Pan ofynnwyd a oedd dull o'r fath yn ymlynu wrth egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, nododd y Gweinidog Addysg mai mater i brifysgolion a'u cyrff llywodraethu yw penderfyniadau benthycu.<sup>137</sup> Esboniodd y byddai gan CCAUC rôl fel rheoleiddiwr hefyd i sicrhau bod unrhyw fenthycu yn ddarbodus,<sup>138</sup> ac ychwanegodd:

“In itself, borrowing isn't an issue, provided it's to support investment and that it is aligned to an institution's strategic priorities and is affordable to them.”<sup>139</sup>

---

<sup>135</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gwybodaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg am Gyllideb Ddrafft 2020-21](#), Rhagfyr 2019, t44.

<sup>136</sup> [Cylchlythyr CCAUC: Sefyllfa ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru: canlyniadau ariannol 2015/16](#)

para 16 (g).

<sup>137</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 131-133\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>138</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 133\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>139</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 133\]](#), 8 Ionawr 2020.

---



## EIN BARN NI

---

**157.** Er ein bod yn cytuno â'r Gweinidog Addysg nad yw benthyca ynddo'i hun yn broblem, nodwn fod benthyca darbodus yn gwbl ddibynnol ar drefniadau llywodraethu da a goruchwyliaeth dda.

**158.** Yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2019 ar ein gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, gwnaethom dynnu sylw at rôl hanfodol llywodraethu effeithiol yn y sector addysg uwch, yn enwedig mewn perthynas â diogelu cyllid cyhoeddus a buddiannau myfyrwyr. Gwnaethom nodi ymhellach ein bod yn pryderu'n fawr ynghylch y dystiolaeth a gyflwynwyd gan UCU (Undeb Prifysgolion a Cholegau) nad oes gan CCAUC yr offer angenrheidiol i wneud ymyriadau llywodraethu effeithiol, a bod y fframwaith statudol cyfredol yn methu â gosod yr amodau ar gyfer llywodraethu da.<sup>140</sup>

**159.** O ystyried y ddibyniaeth sylweddol ar fenthyca i ariannu rhaglenni cyfalaf o fewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, byddem yn croesawu gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ar sut y mae'n ei sicrhau ei hun ynghylch fforddiadwyedd a darbodaeth y lefel hon o fenthyca yn y sector.

**Argymhelliad 25.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n ei sicrhau ei hun:

- bod sefydliadau addysg uwch benthyca mewn modd darbodus a chynaliadwy;
- bod gan gyrff llywodraethu y gallu i oruchwyllo a chraffu ar eu hymrwymadau, a'u bod yn gwneud hynny'n effeithiol.

**Argymhelliad 26.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi pa waith dadansoddi y mae hi—neu CCAUC ar ei rhan—wedi'i wneud ar gynaliadwyedd benthyca o fewn y sector.

## Dull strategol o gydbwyso cyllid rhwng Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB)

**160.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei chynigion ar gyfer diwygio'r sector addysg ôl-16, gyda'r nod o "ganiatáu am y tro cyntaf ddull 'systemau cyfan'" o

---

<sup>140</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Craffu ar Ôl Deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#), Rhagfyr 2019

ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru ac economi Cymru”.<sup>141</sup> Fe wnaeth yr ymgynghoriad ar y cynigion godi cwestiwn ynghylch cydbwysedd y cyllid rhwng addysg uwch ac addysg bellach a sut y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn o dan y diwygiadau.

**161.** Pan ofynnwyd iddi sut y penderfynir ar hyn o bryd ar y cydbwysedd rhwng darparu adnoddau ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach, atebodd y Gweinidog Addysg:

“The resources that have been made available for HE and FE are allocated to align to ministerial priorities. I've ensured that the higher education action has enough resources to deliver on mine and the Government's commitment to respond to the Diamond review, and then look to support FE in a way that is, again, consistent with my priorities, especially with regard to parity of FE pay.”<sup>142</sup>

**162.** Mewn ymateb i gwestiwn am y strategaeth sy'n sail i hyn, ymatebodd y Gweinidog Addysg trwy ailadrodd y bwriad polisi mewn perthynas ag addysg uwch a nododd:

“[...] the budget aligns to the direction of travel that we set out at the beginning of this Assembly term.”<sup>143</sup>

**163.** Mae llawer o'r naratif sy'n ymwneud ag addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei lunio gan gasgliadau adolygiadau Diamond a Reid. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pam nad yw argymhellion adolygiad Reid wedi cael eu hariannu'n llawn, dywedodd y Gweinidog wrthym fod cyllid ar gael a bod cynnydd yn cael ei wneud,<sup>144</sup> ei fod yn faes sy'n gofyn am weithredu traws-lywodraethol,<sup>145</sup> ond bod y gwahanol ffrydiau cyllideb sy'n ariannu ymchwil ac arloesi yn “Byzantine in their complexity”, sy'n ei gwneud hi'n anodd cadarnhau'r cyfanswm a ddyrannwyd.<sup>146</sup> Fodd bynnag, ychwanegodd:

---

<sup>141</sup> Llywodraeth Cymru, [Dogfen Ymgynghori: Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus](#), 24 Ebrill 2018, para 20.

<sup>142</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 109\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>143</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 111\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>144</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 159\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>145</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 160\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>146</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 165 a 167\]](#), 8 Ionawr 2020.

“I believe that we are doing what we can within our department, as I said, with the research and innovation fund and the QR money, to be able to make good on the bits that we have got control over, and we continue to have those discussions, and officials do, across portfolio to make sure that Reid can be implemented.”<sup>147</sup>

## EIN BARN NI

---

**164.** Mae'r angen i ddyrannu adnoddau yn unol ag anghenion a blaenoriaethau tymor hir a nodwyd yn nodwedd graidd ar gyllidebu strategol.

**165.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei nod i gyflawni un system addysg drydyddol gydlynol sy'n ymgorffori AU ac AB o dan un comisiwn addysg drydyddol hyd braich. Felly roeddem am weld tystiolaeth bod dull strategol o gydbwysu cyllid rhwng AU ac AB eisoes yn bodoli.

**166.** Nid ydym yn argyhoeddedig bod tystiolaeth ddigonol o ddull strategol o sicrhau cydbwysedd rhwng cyllid addysg uwch ac addysg bellach wedi'i chyflwyno hyd yma. Yn ein barn ni, bydd hyn yn allweddol i greu system addysg drydyddol “gydgysylltiedig” sy'n ymatebol i anghenion dysgwyr a diwydiant.

**Argymhelliad 27.** Bod Llywodraeth Cymru, yn y cylch cyllideb nesaf, yn darparu tystiolaeth fanylach o'r dull strategol y mae wedi'i fabwysiadu i gydbwysu cyllid AU ac AB.

**167.** At hynny, er y bydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn arwain ar faterion sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi fel rhan o waith craffu Pwyllgorau'r Cynulliad ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, rydym yn pryderu'n fawr am gydnabyddiaeth Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru:

“[...] it is not wholly clear at the moment how much Government funding is going into research and innovation.”<sup>148</sup>

**168.** Rydym yn edrych ymlaen at gael cadarnhad o'r dyddiad pan fydd gwybodaeth am yr amryw ddyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil ac arloesi, gan gynnwys manylion am faint o arian preifat

---

<sup>147</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 181\]](#), 8 Ionawr 2020.

<sup>148</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para 169\]](#), 8 Ionawr 2020.

y disgwylir iddo gael ei ysgogi, ar gael, ac at dderbyn yr wybodaeth hon (a'i rhannu gyda Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau) ar yr adeg honno.<sup>149</sup>

---

<sup>149</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod Trafodion Cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr 2020](#), Ionawr 2020.

---